

# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 272 - 50c  
Ebrill 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Lle aeth  
pawb?  
Cwrtnewydd**



Tudalen 4

**Cadwyn  
arall o  
gyfrinachau**



Tudalen 15

**Buddugwyr  
Eisteddfod  
Sir yr Urdd**



Tudalen 20

## Aelodau C.Ff.I. lleol ar y brig

Aelodau Clwb Llanllwni yn ennill cystadleuaeth Hanner Awr Adloniant Sir Gaerfyrddin



Brenhines a swyddogion newydd Sir Geredigion



Manon Richards, Llanwenog yn Frenhines Rali Cffi Ceredigion 2009 ac  
Emyr Evans, Felinfach yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn.  
Y pedair morwyn yw (o'r chwith) Eleri James, Talybont; Hedydd Davies, Bro'r Dderi;  
Mererid Jones, Felinfach ac Einir Ryder, Pontsian



# Dathliadau lleol



Eisteddfod Gŵyl Ddewi Carreghirfaen (o'r chwith) Enillwyd y Gadair (Cyfnod allweddol 1) gan Lisa Elan; Cyfnod allweddol 2 gan Alis Butten a Thlws am Darn o lenyddiaeth gan Chloe Lewis.



Enillwyd Tarian y marciau uchaf yn Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen gan Mared Owen a Lisa Elan.



Plant a rhieni Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn dathlu Gŵyl Ddewi



Rhai o blant Ysgol Sul Capel y Cwm, Cwmsychbant ar fore Dydd Gŵyl Dewi.



Wythnos y llyfr yn Pentre Bach. - Cerddi T Llew Jones oedd gan Linda Davies i'w hadrodd i blant Cwrtnewydd a Dihewyd.



Aelodau Achub Bywyd Pwll Nofio Llambod 2009 gyda'i Rheolwr John Whitworth, Kayleigh Wood a Adam Whitworth Is-Reolwyr.



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664  
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math  
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

**\* Teiars o bob math \* Olew \* Filteri \* Batris \* Brêcs \***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni  
**Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN**



Lyn Ebenezer y gŵr gwadd gyda Janet, llywydd, Gwynfil is-ysgrifennydd, Noleen, ysgrifennydd ac Aerwen is-lywydd yng nghinio Gŵyl Ddewi Cangen Llambod o Ferched y Wawr.



# Pwy yw pwy?

## Golygydd:

Ebrill a Mai Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffosyffin 01545 571234  
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,  
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590  
e-bost: bedwyr@btopenworld.com  
Teipyddion: Nia Davies, Maesglas 480015  
Joy Lake, Llambled

## Gohebwyrr Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359  
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922  
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies  
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507  
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238  
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856  
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407  
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325  
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218  
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamlwg 480453  
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257  
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

# Beth yw beth?

## Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349  
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk  
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490  
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015  
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015  
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856  
Ffotograffwyr Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644  
Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann 421173  
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: [www.clonc.co.uk](http://www.clonc.co.uk) os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

## Ŵyau Pasg

Odw, rwy'n methu gwneud fy syms! Mynd i archfarchnad dros y pen-wythnos angen dau ŵy pasg. Dim angen dim byd ffansi iawn, gan wybod, mwya'r ŵy, mwya'r papur a'r addurn amdano. Dau ŵy yn costio £3.50. Lwcus i fi sylwi ar hysbys cyfagos – "Prynwch dri am £3.00. Pam yn y byd na fuasai'r rhain ar werth am £1.00 yr un? Dyna fe nid wy'n arbenigwr ar y busnes marchnata ma!

Diawch o syniad da! Clywed yr wythnos yma am siop fechan mewn pentref yn Lloegr yn sicrhau nad oedd plant yr ardal yn gadael sbwriel dros y lle. Yr oedd yn adnabod pob plentyn ac wrth iddynt ddod i'r siop i brynu creision byddai'n rhoi enw'r plentyn ar y cwdyn. Roedd hyn yn symbyliad i'r plentyn beidio a thaflu'r cwdyn, gan wybod y buasai i enw yn dod i olwg pawb. Tybed a oes modd mabwysiadu'r syniad yma y ffordd yma, nid yn unig i blant ond i oedolion hefyd. Soniais flynyddoedd yn ôl am y 'chip line'. Y llinell rhyw dair milltir tu allan i'r dre lle mae'r sglodion brynwyd yn Llambled neu Llanybydder wedi cael ei bwyta, felly y cam nesaf yw agor ffenestr y car a thaflu'r bocs gwag a'r botel bop i'r clawdd. Efallai y medr rhywun allan yna feddwl am ffordd syml i adnabod prynwr y pryd bydd sydd nawr yn sbwriel, weithio!!

## Eisteddfota!

Fel arfer adeg yma o'r flwyddyn mae bwrllwm gweithgaredd eisteddfodau'r Urdd yn flaenllaw

iawn yn ein hardaloedd. Faint o blant drwy Gymru gyfan sydd wedi dysgu'r gwahanol ddarnau ac yn gorfod ei hailadrodd wrth mamgu a thadcu ac wncwl Jac a modryb Jane. Do fe gawsom y profiad y penwythnos yma o glywed ein wyres yn adrodd, canu ac hyd yn oed dawnsio disgo heb gerddoriaeth. Amser difyr iawn i ni a thrwy lwc nid oedd angen dim annogaeth arni hithau chwaith.

## Arwyddion Newydd

Mae'r A475 sy'n mynd o Lamberd am Gastell Newydd Emlyn, wedi cael arwyddion newydd yn ystod y mis. Rhag ofn na welsoch chi nhw, neu am eich bod yn teithio'n rhy gyflym i'w darllen, dyma'r neges –

**A475**

**Anafwyd**

**79**

**2002 – 2007**

## Gyrrwch yn ofalus.

Ydy, mae'n syndod i ni ddeall fod yr hewl yma yn cael rhyw un ddamwain y mis. Ond o weld cyflymdra moduron ar hyd yr hewl yma, mae'n edrych yn debyg fod llawer yn gweld y rhif 79 fel y cyflymder y dylsent ei ddilyn. Nid yw'r gor yrru yn gyfyndedig i un dosbarth o oedran ond ar draws pob oedran gyrru.

Neges fach i ni fel gyrrwyr i'w gofio yn enwedig dros y Pasg a llawer o ddieithriaid yn gyrru o gwmpas. Cofiwch fe all ffŵl ddod i gwrdd a chi ar y tro nesa.

Mwynhewch y Pasg a gyrrwch yn ofalus.

CLONCYN

# Llanwnnen

## Diolch

Dymuna Manon Richards, Lowtre, ddiolch o galon am y llu cardiaid, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur cael ei dewis yn frenhines C.F.F.I. Ceredigion yn ddiweddar. Gwerthfawrogi'r cyfarchion a'r dymuniadau da yn fawr.

Dymuna Hyw a Eva, Ornant ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli ei merch Sheila Davies, 14 Heol-y-Gaer ac o golli chwaer Hyw, Mary Jones, Brynhyfryd, Felinfach yn yr un wythnos. Diolch am yr holl gardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniwyd. Bu'r cyfan yn gysur mawr iddynt ar yr adeg trist yma. Yn yr un modd, dymuna Hyw a Eva diolch i bawb am yr holl alwadau ffôn, cardiaid ac i'r rhai sydd wedi bod yn ymweld ag Eva yn yr ysbyty. Mae Eva yn cryfhau pob dydd, ac yn gobeithio cael dod adref yn fuan iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb am bopeth.

Dymuna Catrin, Castell Du ddiolch i bawb am y llu cardiaid, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn ddiweddar.

## Ysgol Llanwnnen

Ymfalchiwn bod Mr Evans, ein Pennaeth wedi cymryd gofal Pennaeth dros dro Ysgol Cribyn ers gwylliau hanner tymor. Yn sgil hyn croesawn Mr Julian Evans, Llambled sydd wedi bod yn dysgu gennym bob dydd Llun.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y Cawl a Chân blynyddol a gynhelir gan y Pwyllgor

Lles yn y Grannell ar nos Wener, Mawrth 6ed. Rhoddwyd eitemau amrywiol i'r gynulleidfâ oedd yn bresennol. Diolchwn hefyd i'r Pwyllgor am eu rhodd hael i'r ysgol yn dilyn y gyngerdd. Llun ar dudalen 23. Ar ôl wythnosau o ymarfer a pharatoi erbyn Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled, cyrhaeddodd diwrnod yr Eisteddfod yn eitha cloi. Bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yn unigol yn y rhagbrofion. Dyma'r canlyniadau: Llefaru Bl. 3 a 4 – Twm Ebbsworth 1af, Parti Llefaru – 3ydd, Parti Unsain – 2il a Ymgom – 2il. Da iawn i bob yr un ohonoch a diolch i bawb am eu hyfforddi.

Ar ddydd Gwener, Mawrth 13eg cynhaliwyd Trawsgwlad y Cylch ar gaeau Ysgol Gyfun Llambled. Bu pob disgybl yn yr adran lau yn cymryd rhan.

Blwyddyn 3 merched - Heledd Jones 4ydd, Blwyddyn 4 merched - Ellen Jones 8fed, Blwyddyn 5 bechgyn - Hanuman Duxfield 7fed Blwyddyn 5 merched - Cerian Jenkins 7fed, Ffion Jenkins 8fed a Sophie Herron 9fed.

Prynhawn dydd Llun, Mawrth 23ain croesawyd rhai o ddisgyblion Ysgol Llanwenog a Chribyn a'i staff atom tra fod Mr Tom Defis yn rhoi sgwrs am ei waith gyda Chymorth Cristnogol. Bu'r prynhawn yn un difyr iawn a phawb rwy'n siwr wedi dysgu rhywbeth am yr elusen yma.

Nos Lun, Mawrth 23ain cerddom draw i Ganolfan Arddio ger Capel-y-Groes. Cafwyd croeso twymgalon gan y perchnogion a chafodd pob plentyn hadyn a pot i blannu blodyn yr haul i dyfu adre. Cawn weld yn ystod y misoedd nesaf pa un fydd wedi tyfu uchela'!!





**Gwyn Lewis**

Cyf

Cyflenwi a gosod:  
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,  
Cladinau Wal,  
yn ogystal â Gwelyau,  
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont  
LLANBEDR PONT STEFFAN  
Ffôn a Ffacs: 01570 423984  
Adref: 01570 423349

**Gwesty'r Grannell**

Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,  
Ystafell wydr newydd,  
Yn arlwyio ar gyfer pob  
achlysur,

Ystafelloedd en-suite,  
Trwydded ar gyfer priodas.

Cysylltwch â Susan neu Siriol  
☎ 01570 480476



Gall y driniaeth yma eich helpu, os  
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- \* Blinder / diffyg egni
- \* Meigrin
- \* Sciatica
- \* Irritable Bowel Syndrome
- \* Menstrual problems
- \* a mwy

Os am ragor o wybodaeth  
cysylltwch â Carol Rees  
01545 590164  
07929 559561

**Tim Jones**



**Ffotograffydd**

Llainwen, Rhodfa Glynhebog  
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol  
mewn sawl maes, megis:-


1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A  
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth  
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies**  
**Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llambod  
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

## Lle aeth pawb?



**Ysgol Cwrtnewydd 1938** = Rhes gefn - Denzil Jones, Gwarnant; Walter Harries, Clarence; Evan James Jones, Isfryn; Tim Davies, Richmond; Griff Jenkins, Tanrallt; Jack Jones, Cluncoch; Bevan Jenkins, Tancoed.

2il res - Miss Jones, Tegfryn; Sally Williams, Penlanisaf; Betty Morgan, Langro; Kitty Williams, Penlanisaf; Mari Evans, Parc; Eirwen Jones, Rhydny; Rachel Evans, Parc; Mari Morgans, Maesllyn; Mary Jones, Isfryn; Nesta Evans, Pantycelyn; Mr Emrys Rees. 3ydd rhes - Maia Davies, Ffosfald Isaf; Miss Thomas, Blaenhirbant Ganol; Nellie Davies, Waun. 4ydd rhes - Nanna Evans, Bryndelyn; Lorna Morgans, Langro; Myra Evans, Porthway; Gwen Jenkins, Tanrallt; Beryl Jones, Gwarnant; Vera Davies, Pantronnen; Doris Williams, Spring; Sal Davies, Raber; Anne Hatcher, Cwmbach; Mair Howard, Afonog; Ivy, Tŷ Cwrdd. 5ed rhes - Nellie Jenkins, Traffe; Nellie, Cwmawr; Tegwen Evans, Bryn. Rhes flaen - Ernie Jones, Gwarnant; Evan Davies, Ffosfald Isaf; Aneurin, Greenhill; Ieuan Jenkins, Cwmawr; Gwilym Evans, Bryn; Dan Jones, Cwmnant; Ceri Pugh, Brynseion; Ifon Jones, Blaenwaun Uchaf; Ron Davies, Raber; Dai Jones, Neuadd; Hywel Jenkins, Tanrallt.

## O Siambr Sir Gâr

gan Pryfyn



'Yng ngheg y sach y mae cynilo', medd y ddiahareb. Ac ar adeg o wasgfa ariannol ar deuluoedd a busnesau, da yw deall bod cynifer o gynghorau Bro gogledd Sir Gaerfyrddin wedi penderfynu peidio â chodi'r dreth leol am ddeuddeng mis arall. Yn achos sawl Cyngor Bro dyma'r ail neu'r drydedd flwyddyn yn olynol na welwyd cynnydd yn y praesept blynyddol. Bod yn ddarvoudus, bod yn gyfrifol yw arwyddair pob un o'n cynghorau bro; a dyna arwyddair pob un o'r cynghorwyr bro sy'n rhoi eu gwasanaeth yn wirfoddol er budd eu cymunedau. Stiwardio'r etifeddiaeth leol yn gall, pa mor brin bynnag yw'r adnoddau.

Mae gennym gorff o gynghorwyr a chlercod i'w rhyfeddu yn gwasanaethu ein cymunedau lleol yng ngogledd Sir Gaerfyrddin: cynghorwyr sir, cynghorwyr cymuned a chlercod cynghorau a all edrych yn hyderus i fyw llygad pob un etholwr; ar y ffordd, yn y mart, yn y capel, yn y siop, yn y dafarn ac ym mhob man arall. Atebolwydd pen hewl, gonestrwydd a thryloywder gerbron yr etholwyr sy'n llywio'r gangen hon o lywodraeth leol. Ond nid dyna'r drefn ym mhob cangen o lywodraeth - yn lleol nac yn genedlaethol.

Wyddech chi fod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi gorwario y llynedd? Ac ateb y Bwrdd Gweithredol? Cynnig codi'r dreth ar unwaith o 3.3%. Cosbi'r trethdalwyr. Gwrthod y cyfle i gynilo yng ngheg y sach. Gwrthod cywiro diffygion yng nghynllunio strategol y Bwrdd Gweithredol ei hun. Rydym wedi gweld ôl hynny ym maes addysg yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, unwaith eto yn Ninesfwr, wedyn yn y Gwendraeth a thrachefn yn Llanelli.

Ac ystyriwch ddifrifoldeb cyflwr ein ffyrdd ar draws gogledd y sir. Dyma'r gwyn gyson gan bob un Cyngor Bro yng ngogledd y sir yn ystod y misoedd diwethaf a thros y blynyddoedd diwethaf. A rhaid cydymdeimlo â thrigolion cylch Llangynnwr a welodd rhan o'r briffordd ger Capel Dewi yn diflannu i Afon Tywi. Ac unig ateb y Cyngor Sir? Goleuadau traffig, trafnidiaeth un lôn a datganiad gan swyddog yn dweud nad oedd ganddo arian i wneud dim. A dim smic o enau'r aelod etholedig â chyfrifoldeb am ffyrdd ar y Bwrdd Gweithredol.

A phryd y gwelwyd aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ceisio barn etholwyr yn ein hardal ni ddiwethaf? Cofiwch mai'r rhain yw bois y lwfansau mawr (+ treuliau). Dyw aelodau'r Bwrdd Gweithredol ddim am ddod i ateb cwestiynau am ddiffygion gwasanaethau yng Nghwm-ann neu yn Llan-y-crwys neu yn Llanybydder neu yn Llanllwni neu yn New Inn. A'r trethdalwr cyffredin yn y pen draw sy'n cael ei gosbi am eu gorwario nhw a'u lwfansau breision nhw. A dydyn nhw ddim yn awyddus o gwbl i arddel atebolwydd pen hewl. 'Grandstanding' yw enw'r Sais ar eu hathroniaeth nhw - osgoi'r trethdalwr er mwyn osgoi dod wyneb yn wyneb â diffygion y gwasanaethau maen nhw'n uniongrchol gyfrifol amdany nhw.

Ac mae'r Bwrdd Gweithredol yn gwybod yn iawn y gallan nhw symud hyd at 80% o'r cyllid sydd ganddyn nhw rhwng y gwahanol adrannau. Ac maen nhw'n gwybod yn iawn hefyd ei bod hi'n debygol y bydd ryw £1.9 miliwn ychwanegol yn dod i goffrau'r Cyngor Sir o du'r Cynulliad cyn diwedd y flwyddyn am iddynt gwrdd â thargedau penodol, Ond diystyriwyd hynny wrth bennu'r gyllideb yn y Siambr. Taflu'r baich ar y trethdalwyr oedd unig ateb y Bwrdd. I ba gyfeiriad mae'r cyllid wedi symud felly? Mae llawer yn sibwrdd 'Parc y Scarlets'.

Ac mae amryw wedi dechrau sylwi bod criw da o'r Bwrdd Gweithredol yn dod at ei gilydd i weld gemau cartref mewn bocs preifat yn Eisteddle'r De ar Barc y Scarlets. 'Grandstanding ...', medden nhw. 'Grandstanding' ar ei ben, medd Pryfyn. A naw wfft i gynilo yng ngheg y sach.



## Tair Anrhydedd i Undodwr a fynychodd Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan



Mae gŵr a anwyd yng Nghribyn ac a fu yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan eisoes wedi derbyn dwy anrhydedd wahanol gan ei enwad ac mae yn awr ar fin derbyn yr anrhydedd uchaf un.

Er fod y Parch Eric Jones eisoes wedi derbyn dwy anrhydedd gan ei enwad ychydig a feddyliau fod yna anrhydedd uwch eto i ddod i'r ran. Yn 1989/90 cafodd ei benodi yn Llywydd ar Gymdeithas Gyffredinol yr Undodiaid. Anrhydedd i'w dal am flwyddyn oedd honno. Yn ogystal hefyd cafodd yn 2007 ei wneud yn Aelod er Anrhydedd o'r Gymdeithas Undodaidd De Ddwyrain Cymru. Bellach mae ar fin derbyn y trydedd anrhydedd drwy ei wneud yn Aelod Anrhydeddus gan yr enwad cyfan. Mae hwn yn anrhydedd am oes. Dim ond llond llaw o fobl sydd wedi ei derbyn cydnabyddiaeth o'r fath yn dilyn eu cyfraniadau sylweddol i weithgarwch yr enwad. Nid yw chwaith yn bosibl i dderbyn anrhydedd uwch na hwn gan yr Undodiaid.

Bydd yn derbyn yr anrhydedd ym mis Ebrill eleni yn ystod Cynhadledd Flynyddol yr enwad sydd i'w chynnal yng Nghaer rhwng 15fed ar 18fed o Ebrill. Disgwylir bydd cynrychiolaeth o Gymru yn teithio i Gaer i'w gefnogi a fydd yn cynnwys nifer o bobl Geredigion sydd yn adnabod Eric yn dda ac wedi cydweithio gydag ef ar hyd y blynyddoedd maith.

Ganwyd a magwyd Eric ar fferm Cwmlllydan yng Nghribyn fel un o'r chweched genhedlaeth o deulu Undodaidd a hynny o'r ddwy ochr. Roedd ei rieni yn amaethu. Mae ei dad Tommy sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 92 mlwydd oed ac yn byw yn Felin-fach lle mae yn parhau yn hynod bywiog a gweithgar yn y gymdogaeth.

Er i Eric adael yr ardal nôl yn nechrau 1960au, oherwydd ei gysylltiadau teuluol mae Eric yn parhau i ystyried Dyffryn Aeron ac ardal dalgylch Clonc lle mae ganddo nifer fawr o berthnasau yn gartref iddo. Mae yn dal yn aelod yng Nghapel Undodaidd Cribyn. Fe'i hyfforddwyd ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg y Presbi yng Nghaerfyrddin cyn mynd ymlaen i astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a graddio yn y Gymraeg, Diwinyddiaeth a Gwyddor Cymdeithasol.

Gweinidogaethu - Bu'n weinidog yn Aberdâr o 1962 hyd at ei ymddeoliad yn 2003. Dros y cyfnod hynny ychwanegwyd capeli Caerdydd am 30 mlynedd a Chefncoed ger Merthyr Tudful at ei weinidogaeth.

Enwadol - Mae wedi gweithredu fel Ysgrifennydd y Gyfadran Undodaidd ers ei sefydlu yn 1964. Mae ar hyd ei oes wedi gwasanaethu ar amryw o bwyllgorau gwahanol yr enwad megis Pwyllgor Ieuencid, Addysg Grefyddol, Pwyllgor Cyhoeddusrwydd, Y Gronfa Gynhaliath a bu yn Gadeirydd o Bwyllgor y Weinidogaeth a Phwyllgor Cyfswell a Derbyn Darpar Weinidogion yn ogystal a Grŵp Ymgynghorol Cynulleidfaoedd a'r Panel Adolygu a Chefnogi Cynulleidfaoedd gwahanol. Am 25 o flynyddoedd gwnaeth arwain Wythnos o Wyliau Ieuencid yn Llanmadog Penrhyn Gwyr.

Yn 2007 cafodd ei wneud yn Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Undodaidd De Ddwyrain Cymru.

Diddordebau Eraill - Mae wedi bod yn weithgar ym mywyd Cymraeg Cwm Cynon. Am 40 mlynedd bu'n hyrwyddo datblygiad Addysg Cyfrwng Cymraeg ac o 1990 - 1993 bu'n Lywydd y Mudiad Addysg Gymraeg. Mae hefyd wedi gweithredu fel Llywodraethwr ar nifer o ysgolion gwahanol. Am 21 mlynedd gwnaeth olygu'r Papur Bro lleol. Mae hefyd yn aelod o gôr lleol sydd yn adlewyrchiad o'i ddyddiau ieuencid pryd arferai gystadlu ac ennill amryw o wobrau mewn Eisteddfodau lleol am ganu.

Teulu - Mae yn briod ag Anne oedd yn athrawes mathemateg mewn ysgol uwchradd yn ardal Aberdâr. Mae hithau hefyd yn weithgar iawn drwy ei hoed gyda'r enwad yn enwedig gyda mudiad y gwagedd sef Urdd y Benywod.

Mae ganddynt dau o feibion Gwion a Dyfan. Mae un yn actor a'r llall yn gyfansoddwr cerddoriaeth ar gyfer teledu a gwaith theatr. Mae yn dad-cu i bedwar o blant Dafydd, Mali, Menna Angharad a Math.



## EBRILL

- 3 Twmpath Dawns yn Neuadd y Mileniwm Cellan i godi arian i Apêl Pwyllgor Eisteddfod yr Urdd am 7.30 y.h. Mr Erwyd Howells yn galw.
- 5 Rihysal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel y Cwm plant am 3y.p. ac oedolion am 4y.p.
- 6 Bingo Pasg gan Cylch Ti a Fi A Cylch Meithrin Llanllwni yn Neuadd Cymunedol Llanllwni i ddechrau am 8 y.h. Bydd nifer o wobrau i'w ennill.
- 11 Cinio Sioe Frenhinol Cymru 2010 ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 12 Ras rheol Teifi 10 yn Nghlwb Rygbi Llambled 12y.p.
- 13 Cymdeithas Aredig Sir Gaerfyrddin yn cynnal cystadleuaeth Aredig ar fferm Llanfechan, Allyblaca. Am fanylion pellach cysyllter â - Fiona Hughes 01570 481143.
- 15 Eisteddfod Capel y Groes i ddechrau yn brydlon am 1.30y.p.
- 18 Sioe Feirch Llambled ar gaeau Llanllyr, Talsarn. Beirniadu i ddechrau am 9 y.b. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sioned Green Ysgrifennyddes 01570 423135.
- 18 Cwmni Cudyll Coch yn perfformio dwy gomedi yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. Llywydd - Mrs Rona Morgan, Derwen Fawr, Caerfyrddin.
- 19 Rihysal Gymanfa yr Undodiaid yng Nghapel y Groes plant am 4y.p. ac oedolion am 5y.p.
- 21 Bingo gyda Cŵn Hela Rhydcymerau yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8y.h.
- 21 - 24 Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.
- 24 Ocsiwn Addewidion yn Y Talbot Tregaron, elw tuag at gronfa Ysgol Y Dderi.
- 26 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Groes, Llanwnnen. Plant a Ieuencid am 2y.p. ac Oedolion am 5.30y.h.

## MAI

- 4 Ras Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd 12-45y.p. i blant ac oedolion.
- 10 Rihysal y Bedyddwyr - Salem Caio am 3.30y.p.
- 17 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yng Nghapel Caersalem Parcyrrhos am 2.30y.p. a 6y.h.
- 17 Ras mynydd Sarn Helen 16.5 milltiroedd a rاسus i'r plant. 10-30y.b Clwb Rygbi Llambled.
- 19 Cyfarfod Blynyddol CLONC yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch am 7.00yh.
- 22 Merched y Wawr Bronant a'r Cylch - Cinio dathlu Penblwydd 40 yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Croeso cynnes i gyn-aelodau. Enwau i'r ysgrifennydd Edith Beynon - 01974 251518 cyn Mai 12fed.
- 24 Cymanfa Ganu Merched y Wawr Bronant a'r Cylch yn dathlu 40 mlynedd yng Nghapel Peniel, Blaenpennal am 7.30y.h. Yr elw at Ysbyty Tregaron a Chartref Bryntirion.
- 26 Ras y Llychau 6.30y.h. Plant ac oedolion.

## MEHEFIN

- 6 Rali C.Ff.I. Ceredigion ym Mydroilyn.
- 26 Ras Sarn Helen yn Ysgol Felinfach i blant ac oedolion.
- 27 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog.
- 28 Cymanfa Ganu yn Noddfa, Llambled am 7.00y.h.

## GORFFENNAF

- 4 Ffair Haf Ysgol Y Dderi.

## AWST

- 1 Ffair Fwyd Llambled, Gerddi Prifysgol Cymru Llambled.

## MEDI

- 13 - 19 Apêl y Gors - wythnos o godi arian gan bentref Gorsgoch.

**Cegin Coedlannau**  
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'  
\* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)  
\* Bwffe mawr neu fach  
\* Dantethion i de  
\* Pwdinau  
\* Arlwyio ar gyfer pob achlysur  
**Sirian Davies, Coedlannau**  
Fach, Cwrtnewydd,  
01570 434 243  
07815 962 045

Ymgynghorwyr Yswiriant  
**Eryl Jones**  
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?  
Car, lori, fan, beic modur Yswiriant tŷ/cynnwys  
Teithio Fferm a busnes  
Cyfrifoldeb Anifeiliaid  
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad  
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA  
Ffôn: 01570 422401  
Ffacs: 01570 422562  
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

# O'r Cynghorau Bro



## Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Alun James, Clerc: Wenella Evans, Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Chwefror 2009

Cynhaliwyd cyfarfod o'r cyngor yng Nghefnhafod, Gorsgoch. Llywyddwyd gan y Cadeirydd, y Cyng. Alun James. Nid oedd buddiannau personol i'w datgelu.

Cafwyd trafodaeth dda ar oleuo strydoedd y gymuned yn ystod y nos a phenderfynodd y cyngor nad oes angen goleuadau.

Daeth llythyr o gadarnhad bod y Cyngor Sir wedi derbyn amcanbris i wneud y gwaith blynyddol ar ddau lwybr - Glanyrafon, Cwrtnewydd a Pant ger Llanybydder. Deallwyd bod angen cysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru cyn mynd ymlaen â'r gwaith o drwsio llwybr Glanyrafon gan ei fod yn estyn ar draws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Pingoau Nant Cledlyn. Byddai'r Clerc yn ceisio cael rhagor o wybodaeth erbyn cyfarfod nesaf.

Etholwyd y Cyng. Alun James yn Llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Llanwenog am dymor arall. Penderfynwyd cefnogi cais Ysgol Gynradd Llanwenog i gael cyflymdra o 20 milltir yr awr tu allan i'r ysgol ac i lawr i bentref Llanwenog.

Cynigwyd talu Mr Euros Davies £368.00 am atgyweirio'r cysgodfan yng Nghwrtnewydd yn ddiweddar.

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisaidau cynllunio a ddaeth gerbron y cyngor. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 17.03.09

## Cyngor Bro Llanybydder

Cadeirydd: Fiona Hughes, Clerc: Mavis Beynon, Cynghorydd Sir: Fiona Hughes. Cyfarfu'r Cyngor ar 24 Chwefror 2009

Wedi i'r clerch hysbysebu lleoedd gwag yn wardiau Llanybydder a Rhydcymerau, derbyniwyd tri llythyr yn dangos diddordeb yn y lle gwag yn Ward Llanybydder. Bydd y clerch yn cysylltu â'r swyddog perthnasol o'r Cyngor Sir am gyfarwyddyd ac yn holi a fydd rhaid cynnal etholiad.

Yn dilyn cyfarfod o'r cynghorwyr bro ar 21 Chwefror, trafodwyd y gwaith a oedd yn angenrheidiol i godi safon y cyfleusterau ar y maes chwarae cyn gynted â phosibl.

Derbyniwyd ceisiadau i osod llinellau melyn gyferbyn â'r fynedfa i Heol y Dderi. A'r plismon cymunedol yn bresennol yn y cyfarfod, trafodwyd y pwnc a phenderfynwyd y dylai'r clerch a'r heddlu bwysu ar Gyngor Sir Caerfyrddin i weithredu.

Derbyniwyd cwynion gan drigolion Bro Einon am gŵn peryglus ac am faw cŵn yn gyffredinol. Codwyd y pwnc hwn eto gyda'r heddlu a'i dynnu i sylw'r Cyngor Sir er mwyn iddynt weithredu.

Derbyniwyd cwynion am y sbwriel sy'n amlwg o gwmpas y pentref. Awgrymwyd y gallai biniau cymunedol mawr leddfu ychydig ar y broblem. Holwyd y clerch i wneud ymholiadau.

Yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, sefydlwyd pwyllgor i ystyried cynnal Ffair Nadolig yn y pentref. Mae'n fwriad yn ogystal i wneud ymholiadau am oleuadau Nadolig. Cadeirydd y pwyllgor yw Mr Derek Smith, Llandre, Llanybydder. Dylai pawb â diddordeb roi caniad i Mr Smith ar 01570 481554.

## Cyngor Tref Llambod

Maer: Derek Wilson, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 26 Chwefror 2009

Croesawodd y Maer yr aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Neuadd Eglwys San Pedr. Penderfynwyd holi a fyddai'n bosibl cwrdd yma'n gyson tua'r dyfodol.

Ar ddechrau'r cyfarfod rhoddwyd cyflwyniad gan Aled Siôn, Trefnydd Cenedlaethol Eisteddfod yr Urdd. Yn ei gynorthwyo roedd Rhys Bebb-Jones, Trysorydd Apêl yr Urdd, Llambod Ceredigion 2010. Cynhelir yr Eisteddfod yn Llanerchaeron ar gost o ryw £2 filiwn. Pennwyd targed ariannol ar gyfer pob cymuned yng Ngheredigion a nod Llambod yw £8,000. Cyflwynodd y Maer sicc o £500 i Mr Bebb-Jones. Roedd y Cyngor, mewn cyfarfod blaenorol, wedi cytuno i roi ail rhodd rywbryd yn y dyfodol.

Derbyniwyd llythyr yn nodi dieter am ymddygiad unigolion yn Sgwâr Harford ym mis Ionawr. Holodd yr aelodau pa gynydd oedd yn digwydd i'r cynllun i wahardd alcohol o rannau o'r dref. Nododd y clerch ei bod wedi cysylltu â chadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion eisoes ond heb dderbyn ateb. Penderfynwyd anfon copi o'r llythyr at y Prif Arolygydd Calvin Griffiths er mwyn pwysleisio difrifoldeb y sefyllfa.

Trafodwyd ymhellach y lle gwag ar Gyngor y Dref a pholisi'r cyngor o beidio â chyfethol. Roedd y clerch wedi ymchwilio'n drylwyr i'r pwnc. Wedi trafodaeth fanwl penderfynwyd llenwi'r lle drwy etholiad.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus gyda thrigolion Maesyderi, Gwêl y creuddyn, Pen-bryn a Brynyreglwys ar 26 Mawrth am 7.00. Y bwriad oedd canfod barn y trigolion am ddefnyddio'r lle cyn yn fan hamdden ar gyfer y dref.

Penderfynwyd derbyn yr enw Parc St. Germain-sur-Moine yn swyddogol ar King George V Green (Parc Bach).

Nodwyd y byddai'r Dr Brinley Jones a Mrs Trish Carter yn mynychu cyfarfod o'r cyngor ym mis Ebrill i drafod oblygiadau uno'r Brifysgol â Choleg y Drindod, Caerfyrddin.

Derbyniwyd cais i wneud Mountwalk yn ffordd i gerddwyr yn unig a threfnwyd cyfarfod ar y safle gyda chynrychiolydd o Gyngor Ceredigion.

Tynnwyd sylw at ddiffyg cyfrifoldeb rhai perchnogion cŵn a oedd yn gadael i'r creaduriaid faeddu rhannau o'r ardal.

Nodwyd y byddai Transition Llambod yn cynnal achlysur cymdeithasol yn Neuadd St Iago Cwm-ann ar 21 Mawrth. Bwriada'r corff hefyd fynd at Gyngor Ceredigion i holi am brydles Neuadd Victoria gyda golwg ar gynnal marchnad, cynadleddau a chyfarfodydd yno. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn y neuadd ar 24 Ebrill.

Penderfynwyd cefnogi Gwyl Dewi Drwg, Cymdeithas Gerdd Llambod, Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu cynnal cyfarfod cyhoeddus ar 26 Mawrth i drafod dyfodol Hen Gae Chwarae'r Ysgol Gynradd ym Maesyderi. Hoffai'r Cyngor logi'r cae fel amwynder i drigolion y dref. Bydd y cyfarfod cyhoeddus yn gyfle i bawb ddeud eu dewud. Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26 Mawrth 2009.

## Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Eurig Davies, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 9 Mawrth 2009

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn Neuadd Gymunedol y pentref.

Nodwyd bod cais am safle adeiladu ger Berllan-bêr wedi ei wrthod.

Penderfynwyd cefnogi'r mudiadau a'r elusennau canlynol eleni: Shelter Cymru, Sefydliad Aren Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Cyngor ar Bopeth, Eisteddfod yr Urdd, Ambiwylans Awyr Cymru, CFfI Sir Gâr, Marie Currie, Macmillan, Gofal mewn Galar, Cymorth i Ddiodefwyr Cymru, Pwyllgor yr Henoed, Eisteddfod Llangollen, Ysgol Llanllwni.

Penderfynwyd symud ymlaen i greu gwefan i'r gymuned.

Penderfynwyd cysylltu â'r awdurdodau priodol i drefnu casglu sbwriel yn y pentref yn rhan o wasanaeth cymunedol.

Cadarnhawyd bod cyfarfod wedi'i drefnu gyda Rhodri Glyn Thomas ac Adam Price i drafod cyflwr difrifol heolydd bychan y plwyf; diffyg cyfleusterau i gerddwyr; dyfodol ysgolion gwledig.

## Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: Richard O Jarman, Clerc: Aneurin R Davies, Cynghorydd Sir: Cyfarfu'r Cyngor ar 3 Mawrth 2009

Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir i beidio â diffodd dau o'r lampau ar y sgwâr ger y gylchfan.

Mae'r Cyngor wedi derbyn cwyn bod cwn yn baeddu'r palmant rhwng Llygad yr haul a Swyddfa'r Post. Gofynnir yn garedig i berchnogion y cwn godi'r baw neu bydd rhaid gofyn i'r warden cwn weithredu.

Cytunwyd talu aelodaeth Un Llais i Gymru.

Gadawyd dewis cynrychiolydd ar Lywodraethwyr yr ysgol leol tan y cyfarfod nesaf.

## Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: G Hicks, Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies. Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Chwefror 2009

Cefnogwyd yr achosion a'r elusennau canlynol: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010; Y Neuadd Goffa; Ysgol y Dderi; Yr Ambiwylans Awyr; Henoed Ceredigion a Nyrsus McMillan.

Talwyd cyflog y Clerc a chost am arwydd Coxhead.

Nodwyd bod y gwaith ger Fferm Derry Ormond wedi ei gwblhau, a'r blwch graen ar hewl y Tŵr wedi diflannu a'r un ger Llwynfeilig yn llawn dŵr.

Bu cais cynllunio Tanfforest, Silian yn llwyddiannus.

Derbyniwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd i fynychu garddwest – y canlyniad yn dibynnu ar ba enw a ddaw allan o'r het.

Derbyniwyd awgrymiadau sut i ddelio a pherchnogion cŵn anghyfrifol - mae ymddangos mewn llys a dirywio trwm yn bosib os yw'r cŵn yn peri trafferthion i'r gymuned.

Codwyd swm o £165 at Eisteddfod yr Urdd 2010 mewn cystadleuaeth ddartiau yn y Moorlands.



# Drefach a Llanwenog

## C.Ff.I Llanwenog

Pleser yw cael adrodd hanesion y clwb yn ystod y mis diwethaf. Fe wnaethom gychwyn y mis drwy gael noson o gawl ac Eisteddfod ddwl yn nhafarn Cefn Hafod, Gorsgoch. Diolch i bawb a fuodd yn coginio'r cawl blasus ac i glwb Pennant am ymuno a ni yn y noson. Fe gafwyd noson llawn sbort a sbri.

Yna ar y 6ed o Fawrth 2009, yng nghwesty'r Marine, Aberystwyth, cynhaliwyd dawns dewis swyddogion y sir am y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r noson hon bob amser yn un gyffrous i glwb Llanwenog, ac yr un oedd y stori eleni eto. Pleser llwyr yw cael llongyfarch Manon Richards ar gael ei hethnol yn frenhines y sir. Dyma yw aelod hoffus a gweithgar tu hwnt sy'n llawn haeddu'r teitl. Hoffai'r clwb ddymuno pob hwyl i Manon yn ei swydd newydd ac edrychwn ymlaen i'r seremoni goroni yn rali Mydroilyn ar y 6ed o Fehefin 2009. Cofiwch ddod i gefnogi.

Daeth clod pellach i'r clwb ar y 7fed o Fawrth yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg Cymru. Daeth y tîm o dan 26 yn ail, lle roedd Helen Davies a Rhian Bellamy yn cystadlu a'r tîm dan 21 yn gydradd drydydd sef Luned Mair, Cerys Jones ac Enfys Hatcher. Hefyd yr oedd Luned Mair a Cerys yn rhan o't tîm 'Call my bluff' a ddaeth yn gydradd ail. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Yna, yn parhau a'n gweithgareddau, ar y 9fed o Fawrth, aethom i ladd-dŷ Dunbia yn Llanybydder. Cawsom noson addysgiadol iawn ac yr ydym yn ddiolchgar iawn i Dunbia am yr holl waith paratoi er mwyn ein croesawu. Ar y 16eg o Fawrth, croesawyd Ywain ap Dylan o adran diogelwch ffyrdd cyngor sir Ceredigion. Hoffwn ddiolch yn fawr i Ywain am ei gyflwyniad graenus.

Yr ydym ar hyn o'r bryd yn paratoi ar gyfer diwrnod maes y sir a fydd yn cymeryd lle ar y 4ydd o Ebrill yn mart Tregaron. Pob lwc i'r holl aelodau fydd yn cystadlu. Hefyd pob lwc i'n aelodau a fydd yn cystadlu yn y siarad cyhoeddus Cymraeg ar lefel Cymru ar y 28ain o Fawrth. Fe gewch y canlyniadau yn

llawn yn y rhifyn nesa.

## Y Gymdeithas Hŷn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth o'r Gymdeithas yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd. Croesawyd pawb gan y llywydd, Mrs Dilwen George. Derbyniwyd ymddiheiriadau oddiwrth nifer oedd yn methu bod yn bresennol, ac estynwyd cydymdeimlad pawb at Hyw ac Eva. Hyw wedi colli ei unig ferch, a'i chwaer, yn yr un wythnos. Felly hefyd ag Annie Bowen oedd wedi colli brawd yn ddiweddar. Hyfryd oedd gweld Mrs Jean Evans wedi gwella ar ôl ei hanwylder.

Darllenwyd cofnodion y Pwyllgor diwethaf gan Eifion Davies a chynigiwyd eu bod yn gywir gan Jim Evans ac eiliwyd gan Dai Davies.

Cafwyd cyngerdd o safon gan blant yr ysgol, pob un yn gwneud eu rhan yn ardderchog. Diolchwyd iddynt gan Eifion Davies a rhyfeddodd at y detholiad helaeth ac amrywiaeth yr eitemau. Dymunodd yn dda i'r plant wrth fynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod gylch yr Urdd.

Cafwyd te wedi ei baratoi gan aelodau Capel y Bryn, Cwrtnewydd. Yn ystod y te tynnwyd y raffl a enillwyd gan Jean, Nel a Ray Thomas. Diolchwyd i'r gwagedd gan Mair Williams.

Mis nesaf byddwn yn cychwyn ar deithiau'r Haf. Y cyntaf ar Ebrill yr 8fed i Aberystwyth ac i'r Amgueddfa yno. Bydd y bws yn gadael Llambod am 9. Os hoffech ymuno â ni, rhowch wybod i Yvonne neu Eifion ar 480590.

## Capel Brynteg

Mewn ymateb i ymgyrch enwad yr Annibynwyr eleni i godi arian i Apêl De Affrica drwy Cymorth Cristnogol, cynhaliwyd te yn y festri wedi'r oedfa gymun prynhawn Sul, Mawrth 22ain. Mwynhawyd lluniaeth ysgafn, ynghyd â sgwrs a chlonc, ac ar yr un pryd cyfranwyd at ein brodyr a chwiorydd sy'n llai ffodus na ni.

Os dymunau rhai o'r aelodau sydd hyd yma ddim wedi cyfrannu, mae cyfle eto i ddod a'ch cyfraniadau naill ai i David James Jones, Ysgrifennydd y Capel, neu i Daff

Davies, Abertegan, Trysorydd.

## Eglwys y Santes Gwenog.

Ym mis Mawrth daeth nifer o wragedd y Capeli a'r Eglwysi ynghyd i Eglwys Sant Luc, Llanllwni i ymuno yng ngwasanaeth Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd. Cafwyd croeso ac anerchiad pwrpasol gan y ficer y Parch Bill Fillery. Roedd y thema 'Yng Nghrist y mae aelodau lawer, ond un corff'. Paratowyd y gwasanaeth gan chwiorydd Papua Guinea Newydd. Lilian Davies a Mary Thomas fu'n cynrychioli Eglwys Llanwenog.

Taenwyd ton o dristwch dros ardal gyfan gyda'r newydd fod Mrs Sheila Davies, merch Mr Hyw Davies a llysferech Mrs Eva Davies, Oernant wedi colli ei brwydr yn erbyn y cancr. Roedd Sheila yn weithgar yn y gymuned a rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth di-flino i Eglwys Sant Pedr, Llanybydder ac i gangen leol o Sefydliad Prydeinig y Galon. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn gyda'r teulu oll yn eu galar. Cafodd Hyw ergyd drom arall yn yr un wythnos pryd y bu ei chwaer farw'n ddisymwyth iawn. Dymunwn yn dda i Eva sydd yn gwella yn ysbyty Glangwili.

Dymunwn well iechyd i Mrs Moira Bone sy'n derbyn rhagor o driniaeth yn yr ysbyty yr wythnos yma.

Bu'r Parch Bill Fillery a Mrs Fillery yn ymweld â'r teulu ym Mhrague. Yn ei absenoldeb bu'r Parch Neil Ryder yn cymeryd y gwasanaeth ar y Sul. Diolchwn iddo am ei barodrwydd i wneud hyn.

Enillwyr Clwb 100 Mis Mawrth:- Mrs Margaret Rees; Mrs Bronwen Jones; Nancy Fillery.

## Gwellhad Buan

Treuliodd Mrs Beryl Lewin, Harlech rai diwrnodau yn ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Gobeithio eich bod ar wellhad erbyn hyn.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir a Huw a Mair Price, Llety'r Wennol ar farwolaeth modryb Huw a oedd yn byw yn ardal Aberystwyth.

## Cylch Meithrin Drefach

Croeso cynnes i'r cylch i Lowri Jones.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch yn ddiweddar. Cynhaliwyd noson bingo a chodwyd swm sylweddol i gronfa'r cylch. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Buom yn ymweld â sioe Sali Mali a Cyw yn Ysgol Gyfun Aberaeron yn ystod y mis. Cafwyd amser hyfryd a chafodd y plant adnoddau pwrpasol o'r sioe.

# Silian

## Morwyn C.Ff.I. Ceredigion

Llongyfarchiadau i Hedydd Davies, Gwarffynnon ar gael ei dewis yn Forwyn i Frenhines C.Ff.I. Ceredigion. Mae Hedydd yn aelod gweithgar iawn o Glwb Bro'r Dderi. Mwynha dy flwyddyn!

# Llanllwni

## Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Eglwys Llanllwni ar Fawrth 6ed. Yn cymryd rhan oedd Eglwysi Llanllwni a Llanwenog ynghyd â Chapeli Nonni, Brynteg, Drefach a Seion. Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Capel y Bryn. Croesawyd pawb yn gynnes gan Mrs Anita Evans. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan wragedd Papua Guinea Newydd ac fel y soniodd ein Ficer y Parch Bill Fillery wrth anerch fod yna 600 o ynysoedd yn perthyn i Papua Guinea Newydd a dros 800 o ieithoedd.

Yn dilyn syniadau ar ein cyfer gwnaed amlinelliad o gorff ar ddarn o bapur, ac wrth i'r gwagedd gyrraedd gwahoddwyd hwy i ysgrifennu eu henwau. Hefyd cafwyd lun o ddwylo gweiddgar gyda'r geiriau yma arno: Cerwch, gofawch a gweiddwch dros eich gilydd. Braf oedd cael bod yn rhan o'r gwasanaeth. Yr organyddes oedd Mrs Betty Prytherch. Ar y ddiwedd y gwasanaeth rhannwyd bisgedi 'Ginger Bread'.


## Cydymdeimlo

Yn ystod y mis bu farw dau o drigolion Llanllwni sef David Emrys Williams, 30 Bryndulais a Peter Cleverly, Dolcoed. Estynnir cydymdeimlad dwys i'r ddau deulu.

## Diolch

Dymuna Jessie a Rob a'r plant, Treetops ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd ar farwolaeth ei mam a mamgu, sef Betty Harries, Brynhawk, Llanllwni.

GORSAT BRAWF  
MOT



**GAREJ BRONDEIFI**  
*Heol Llanfair*  
*Llambod*  
*SA48 8JX*

Ffôn: 01570 422305  
Ffôn Symudol: 07974 422305

*Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydlon a chyfeillgar*

\* Gwasanaethu ac Atgyweirio \* Prisiau Cystadleuol am Deirars \*  
\* Egsôsts \* Batris \* Brêcs \* Ceir Newydd ac Ail-law ar werth \*



**TAITH  
TRACTORAU**  
**Dydd Llun y Pasg**  
13 Ebrill 2009

**Gadael Cross Roads Llanllwni**  
**am 10.00 y bore.**  
**Am fwy o fanylion cysylltwch a**  
**Tom Lewis, Aneddle, Pencader**  
**01559 384279**

**Elw tuag at**  
**Papur Bro**  
**Y GARTHEN**



# Hen Ffordd Gymreig o fyw




Eglwys a thafarn Cellan 1867

## Cyrol yn llawn lluniau

Mae hen luniau o Gellan a Phumsaint wedi eu cynnwys mewn cyrol o ffotograffau'r ffotograffydd byd enwog John Thomas. Cyrol ddwyieithog am fywyd a gwaith John Thomas yw *Hen Ffordd Gymreig o Fyw*. Mae 130 o luniau ynddi, yn darlunio teithiau John Thomas o gwmpas Cymru yn ystod ei oes. Yn ogystal a thynnu lluniau o lefydd tynnodd luniau o bobl yn cynnwys gweithwyr cyffredin a chardotwyr gan gofnodi newidiadau chwyldroadol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i disgrifir fel "un o ffotograffwyr mawr y byd" gan awdur y llyfr newydd a phennaeth Gofal Casgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Iwan Meical.

## Cystadleuaeth

Pris *Hen Ffordd Gymreig o Fyw* a gyhoeddir gan Y Lolfa yw £14.95, ond mae gan Clonc gopi fel gwobr. Danfonwch yr ateb i'r cwestiwn canlynol at Clonc, Tycerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET. Pa luniau o'r ardal hon sydd yn y gyrol *Hen Ffordd Gymreig o Fyw*?



# Colofn y C.Ff.I.



## Swyddogion newydd

Cynhaliwyd dawnys dewis swyddogion newydd i'r sir, nos Wener y 6ed o Fawrth yng ngwesty'r Marine, Aberystwyth. Cafwyd noson hwylus a chyhoeddwyd mai'r aelodau canlynol fydd swyddogion newydd y sir am y flwyddyn 2009-2010:-

Brenhines: Manon Richards, Llanwenog Ffermwr Ifanc: Emyr Evans, Felinfach

Morwynion: Hedydd Davies, Bro'r Dderi; Eleri James, Talybont; Mererid Jones, Felinfach ac Einir Ryder, Pontsian.

Llongyfarchiadau i chi gyd a dymuniadau gorau yn ystod y flwyddyn.

## Siarad Cyhoeddus Saesneg, Cymru

Cynhaliwyd cystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg, C.Ff.I. Cymru ar y 7fed o Fawrth yn Llantrisant. Daeth tipyn o lwyddiant i'r aelodau a fu yn cynrychioli'r sir ac ar ddiwedd y dydd, daeth Ceredigion yn gydradd 4ydd. Daeth y tîm dan 26 oed yn 2il sef Rhian Bellamy, Mererid Davies, Helen Howells a Wyn Thomas. Daeth y tîm dan 21 oed yn 3ydd sef Enfys Hatcher, Cerys Jones, Llyr Jones, Luned Mair, a Heledd Thomas. Cynhaliwyd cystadleuaeth 'Call My Bluff' hefyd yn ystod y dydd a daeth y tîm yn gydradd 2il sef Hedydd Davies, Cerys Jones a Luned Mair. Llongyfarchiadau mawr!

## Rhowch gynnig arni

Nos Wener, y 13eg o Fawrth, cafwyd noson hwyllog iawn o 'Rhowch gynnig arni' yng ngwesty Llanina, Llanarth. Bu sawl tîm yn cystadlu gydag aelodau presennol a chyn-aelodau'r mudiad yn cydweithio yn rhagorol i greu adloniant ysgafn i'r gynulleidfa. Plesiwyd y digrifwr a'r beirniad am y noson sef Ifan Gruffydd, Tregaron yn fawr. Tîm Felinfach ddaeth i'r brig – da iawn wir!

## Digwyddiadau

Ebrill 4 Diwrnod Maes y Sir yn Nhregaron

Ebrill 6 Cwis Iau y Sir

Ebrill 17 Gala Nofio'r Sir yn Aberaeron

Mai 9 Mabolgampau'r Sir ar gaeau Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

# Sarn Helen



Dechrau mis Mawrth aeth rhedwyr y clwb i Dregaron i ras hanner marathon Gors Caron, Glyn Price yn ennill y categori vet 40 a Michael Davies yn cael yr ail safle. I'r dynion Vet 55 Murray Kisbee yn gyntaf a Lyn Rees yn drydydd. Yn adran y menywod agored Caryl Davies yn drydydd a Caroline John hefyd yn drydydd i'r menywod dros 35. Dyma'r canlyniadau, Glyn Price 1 awr 20 munud 30 eiliadau, Michael Davies 1 awr 30 munud 30 eiliadau, Carwyn Thomas 1 awr 27 munud a 25 eiliadau, Huw Price 1 awr 28 munud a 30 eiliadau, Mark Dunscombe 1 awr 29 munud 26 eiliadau, Murray Kisbee 1 awr 36 munud 43 eiliadau, Caroline John 1 awr 38 munud 58 eiliadau, Haydn Lloyd 1 awr 44 munud 13 eiliadau, Lyn Rees 1 awr 45 munud 32 eiliadau, Caryl Davies 1 awr 51 munud 37 eiliadau, Jan Jones 2 awr 6 munud 24 eiliadau Gudrun Jones 2 awr 26 munud 10 eiliadau, a Allen Watts 3 awr 2 munud 3 eiliad.

Gwynt a glaw oedd y tywydd i'r hanner marathon Llanelli. Michael Davies yn drydydd yn y ras i ddynion 40 yn 1 awr 20 munud a 11 eiliadau, Mark Dunscombe 1 awr 26 munud, Tony Hall 1 awr 31 munud, Simon Hall 1 awr 35 munud, Caryl Davies 1 awr 53 munud a Allen Watts 2 awr 56 munud.

Yn y pedwaredd gyfres o'r trawsgwlad yn Aberhonddu, Richard Marks yn y safle 90 41 munud a 30 eiliadau, ac yn y ras menywod Jan Jones yn 72, 33 munud 3 eiliad, 91 Sue Jenkins 41 munud a 3 eiliad. A'r pumed gyfres yng Nghaerfyrddin, merched dan 13 Rhian Jones 27fed, Menywod hyn 18 Carys Davies, 61 Jan Jones 78 Sue Jenkins, ac yn y dynion hyn Richard Marks yn 85.

Ar Ddydd Gwyl Dewi aeth y rhedwyr i Landdewi Brefi i'r ras 10K.

Carwyn Thomas yn ennill 35 munud a 44 eiliadau, a Michael Davies yn ail 36 munud 44 eiliadau. Tony Hall yn ennill y categori vet 41 munud a 36 eiliadau, ac hefyd Dawn Kenwright yn gyntaf yn ei chatagori 45 munud 39 eiliadau, Lyn Rees 45 munud 47 eiliadau, Andrew Edgell 46 munud 47 eiliadau, Caryl Davies 49 munud 27 eiliadau, Jan Jones 52 munud 27 eiliadau, ac Allen Watts 1 awr 27 munud. Ar ddiwedd y ras mwynhaedd pawb y cawl blasus.

Dydd Sadwrn diwethaf aeth saith o redwyr y clwb i Rhaeadr i gystadlu yn ras 20 o filltiroedd. Roedd y ras yn dechrau yn Rhaeadr ac ar y ffordd allan roedd ganddynt 1600 o droedfedydd i ddringo cyn cyraedd y copa, ac i lawr am filltir i gael fynd o amgylch Ddyffryn Elan, ac yn nôl i Rhaeadr. Yn y categori dynion 40 Glyn Price yn ennill a Michael Davies yn ail. Dyma'r canlyniadau -.Glyn Price 2 awr 10 munud a 32 eiliadau, Michael Davies 2 awr 14 munud a 7 eiliad, Carwyn Thomas 2 awr 14 munud a 23 eiliadu, Huw Price 2 awr 31 munud 12 eiliadau, Murray Kisbee 2 awr 37 munud a 27 eiliadau, Caryl Davies 3 awr 11 munud 57 eiliadau. Gudrun Jones 3 awr 50 munud. Enilloedd Glyn Price Michael Davies Carwyn Thomas a Huw Price yn tim. Llongyfarchiadau i Glyn Price ar gael ei ddewis yn gaptain clwb Sarn Helen.

Dydd Sul y Pasg sef Ebrill 12 bydd ras Teifi 10. I ddechrau o glwb rygbi Llambled am 12 o'r gloch. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Wendy Davies 01570 481153.

# Gorsgoch

## Eisteddfod Gylch yr Urdd

Llongyfarchiadau i Gwawr Hatcher am ddod yn 1af yn yr unawd a'r ddeuawd gyda'i ffrind Meleri Davies, 2ail yn yr unawd cerdd dant a'r unawd telyn, 3ydd yn y llefaru a'r unawd alaw werin. Hefyd i Sophie a Lauren Jones am ddod yn 2ail yn y ddeuawd

## Eisteddfod Uwchradd yr Urdd

Llongyfarchiadau i Gwawr am ddod yn 2ail yn yr unawd a 3ydd yn yr unawd piano. Roedd Sophie, Lauren a Gwawr yn aelodau o gôr yr ysgol a fu'n fuddugol a pharti llefaru a pharti deusain aelwyd Llambled a bu hefyd yn fuddugol. Da iawn ferched, a phob lwc yn y Genedlaethol.



## Astudio'n Allanol Drwy Gyfrwng y Gymraeg

Ydych chi eisiau her newydd – cyfle i wella eich Cymraeg, dysgu mwy am lenyddiaeth Gymraeg, Hanes Cymru neu Oes Aur byd y sinema? Dyma eich cyfle i astudio ar y Sadwrn ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gloywi Iaithe (OC10320), Llenyddiaeth yr Ugeinfed Ganrif (OC10210), Concwest, Uno a Hunaniaeth 1200-1800 (OH10120), Astudio Ffilm\* (OD10410) (\* dysgu o bell).

Dyddiad cau: 30 Ebrill. Am ffurflen gais a mwy o fanylion

Ebostiwch: [graddallanol@aber.ac.uk](mailto:graddallanol@aber.ac.uk), neu ffoniwch: 01970 622239.



# Llangybi a Betws

## Cymdeithas Maesyffynnon

Croesawyd pawb ar y noson arbennig yma gan Mrs Sally Davies, Llywydd y Gymdeithas i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant. Traddodwyd y fendith gan y Parch Elwyn Jenkins. Cyn i bawb gyfrannu o gawl, cân ac anerchiad, cawsom hanes ddiddorol ac addysgiadol am Ddewi Sant gan ein gwraig gŵadd Mrs Nel Williams o Lamed a chaneuon addas ar gyfer yr achlysur. Aeth pawb adref yn hapus wedi mwynhau yr adloniant a'r bwyd traddodiadol.

## Hamdden

Croesawodd Dilys Godfrey bawb i ddathlu Gŵyl Ddewi, ein Nawdd Sant yn yr Hedyn Mwstard yn Llambod. Yno y cawsom wledd o gawl a danteithion traddodiadol. Y gŵr gwadd oedd y Parch Dyfrig Lloyd, ac fe gawsom ein diddanu yn hyfryd iawn ganddo, wedi mwynhau y caneuon gwerin a'u hanes yn enfawr. Derbyniwyd gwobrau raffl gan Gwenda Thomas, Mair Spate, Joan Brill, Sally Davies, Mr Kidby, Llinos Jones, Reg Chapman, Hilda Jones, Dilys Godfrey a Joyce Harris. Talwyd y diolchiadau gan y Llywydd gan gyfeirio at gyfraniad y Parch Dyfrig Lloyd am ddiddanu y gynulledfa mor effeithiol o bleserus ac i staff yr Hedyn Mwstard am wledd mor flasus a'r croeso bendigedig. Taith ddirgel yw cyfarfod mis Ebrill yn cychwyn o Langybi am 12:30 y.p, yn teithio tua Llambod. Côst y prynhawn bydd £10. Enwau i Mrs Llinos Jones mor fuan as syn bosibl.

## Marwolaeth

Trist iawn oedd y newyddion am farwolaeth Mr John Abbott, Modurdy Dulas. Gŵr a fu yn byw yn y pentref am tua deugain mlynedd. Cydymdeimlir gyda'i deulu a'u ffrindiau yn fawr.

## Y Groglith

Cynhelir gwasanaeth y Groglith yng Nghapel Maesyffynnon ar ddydd Gwener, Ebrill 10fed am 10:00 y.b. Bydd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Elwyn Jenkins. Croeso cynnes i bawb.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lowri Pugh-Davies ar ennill yr ail wobwr yng nghystadleuaeth llefaru i blant dan 19oed, yn eisteddfod gylch yr Urdd. Llogyfarchiadau hefyd i Rhodri Pugh-Davies, Sian, Elin a Rhodri Young ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth yr ymgom. Da iawn chi.

## Ysgol Y Dderi

Taith Mrs Ann i Ysgol Majiabao Chongqing Tsieina Chwefror 28ain-Mawrth 7fed 2009 Dyma'r ail dro i Mrs Ann

ymweld ag ysgol Majiabao. Pleser pur oedd yr holl brofiad. Tri gair sy'n dod i'm meddwl - Parch, Caredigrwydd a Chyfeillgarwch. Roedd yr egwyddorion yma wedi eu gwreiddio'n ddwfn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Dyma'r egwyddorion sy'n rhedeg trwy'r gymdeithas gyfan, roedd hi'n wir fraint iddi gael profi a rhannu diwylliant mor sylfaenol. Rydyn ni wedi arwyddo dogfen o gyfeillgarwch gyda'r ysgol ac am ddatblygu cysylltiadau pellach addysgol drwy rannu prosiectau, a maes o law cyfnewid athrawon a phlant i brofi o ddiwylliant mor unigryw. Cafodd ei thrin fel brenhines! Dysgodd ychydig o'r iaith, yr ysgrifen hyfryd, yr opera a dilyn gwersi celf. Cafodd plant bach Majiabao y cyfle i ddysgu ychydig o Gymraeg, dawnsio gwerin, celf a Saesneg. Roedd y dosbarthiadau yn fawr, tua 40-50 o blant ond roeddent i gyd yn awyddus i ddysgu. 1,900 o blant sydd yn yr ysgol, roedd pob un yn groesawgar ac yn fonheddig.

Dychwelodd Mrs Ann i'r Dderi, yn llwythog - anrhegion di-ri i'r ysgol i helpu'r dysgu a'r addysgu. Y prosiect cyntaf fydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Chynnaladwyedd. Gwefan Majiabao yw [www.mjbx.com](http://www.mjbx.com)

Braint yw cael cydweithio a rhannu profiadau gydag ysgol mor flaengar. Gobeithio y gwnaiff flodeuo!

Dydd Iau, 5ed o Fawrth 2009, Pafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid

Profiad bythgofiadwy oedd i aelodau Bwrdd Y Plant i gymryd rhan yn y gynhadledd bwysig hon. Cafwyd y cyfle i gyfarfod â Gwenda Thomas y Dirprwy Weinidog a Mark Williams A.S. Cafwyd areithiau gan bobl sy'n cydweithio gyda'r ieuencid a'r henoed a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Bu Bwrdd Y Plant yn cyflwyno pwerbwynt gweledol sy'n hyrwyddo ein gwaith da yn lleol ac yn rhyngwladol. Roedd pawb ar eu gorau a chafwyd cymeradwyaeth hir gyda'r gynulleidfa'n canmol eu gwaith da. Yn ystod y prynhawn bu'r plant yn cymryd rhan mewn gweithdai oedd yn uno'r Cenedlaethau. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig iawn. Aelodau'r Bwrdd yw, Gwion Griffiths-Payne, Shivawn Weston, Daniel Evans, Marina Deardon, Cyffin Thomas, Elinor Griffiths, Toby Lance, Zoe Jones, Rhodri Gwynne Edwards, Rhiannon Newitt, Aled Edgell a Ceri Davies.

Bu plant blwyddyn 3 ym Mhentref Bach yn dathlu diwrnod y llyfr. Roeddent wedi gwisgo fel arwr allan o lyfr a chafwyd gweithgareddau pwrpasol oedd yn hybu darllen. Prif ffocws y dydd oedd gwaith y diweddar T. Llew Jones. Braf oedd rhannu dathliad o waith creadigol un

o arwyr mwyaf plant Cymru.

Llongyfarchiadau i bob un a bu'n rhedeg yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd a chystadleuaeth trawsgwlad y dair Sir yng Nghaerfyrddin. Dai awn chi blant. Diolch i Miss Rhian Jones a Mrs Sheila am fynd â nhw.

Unwaith eto eleni, profwyd bwrllwm eisteddfod gylch yr Urdd. Ein tro ni oedd hi i drefnu'r diwrnod a braf yw nodi bod popeth wedi mynd yn hwylus. Diolch yn arbennig i Mrs Sheila Pugh Davies a fu'n gweithio'n ddiflino am wythnosau cyn hynny, ac i weddill staff yr ysgol am eu cyfraniadau paratoadol ac yn ystod y dydd. Mae ein dyled yn fawr chi gyd.

Wedi bore prysur o ragbrofion braf yw nodi bod nifer o'n plant wedi cyrraedd y llwyfan. Llongyfarchiadau arbennig i'r canlynol: Llefaru unigol blwyddyn 2 ac iau 2il Daniel Evans, 3ydd Oscar Lloyd Gaiger; Llefaru unigol i ddysgwyr blwyddyn 2 ac iau 1af Heledd Jones; Llefaru unigol blwyddyn 3 a 4 3ydd Liam Newitt; Llefaru unigol i ddysgwyr blwyddyn 3 a 4 1af Mererid Jones; Unawd llinynnol blwyddyn 6 ac iau 1af Mererid Jones; Unawd piano blwyddyn 6 ac iau 2il Rhiannon Newitt; Parti llefaru 2il; Parti canu 3ydd; Grŵp dawnsio disgo 2il; Grŵp dawnsio gwerin blwyddyn 3 a 4 1af; Grŵp dawnsio gwerin blwyddyn 5a 6 1af. Braf yw nodi llwyddiant y ddau grŵp dawnsio gwerin yn eisteddfod dawns sirol a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth, grŵp blwyddyn 3 a 4 yn dod yn 2il mewn cystadleuaeth agos iawn a grŵp blwyddyn 5 a 6 yn ennill y gystadleuaeth. Dyma'r tro cyntaf yn hanes yr Ysgol i'r plant i gystadlu yn y cystadlaethau dawnsio gwerin a dyma'r plant hŷn yn profi llwyddiant ac yn awr ar eu ffordd i Gaerdydd ym mis Mai. Pob lwc i chi blant! Mae'r holl ymarfer, y gwaith o baratoi gwisgoedd wedi talu ffordd. Diolch diffuant i'r holl bobl bu'n gysylltiedig â phob cystadleuaeth eleni, yr ymarfer diflino a'r paratoadau amrywiol ac wrth gwrs, i'r plant - gwaith tîm yn talu ffordd. Pob lwc i'r unigolion yn yr Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid, bydd yr eisteddfod wedi bod erbyn daw rhifyn mis hyn o CLONC allan ond bydd raid i ni aros am y canlyniadau tan fis nesaf.

Ein thema'r tymor yma yw 'Bwyd a Ffermio' ac erbyn hyn 'rydym wedi bod yn gwneud tipyn o ymchwil ar y pynciau yma. Bu plant y Meithrin a'r Derbyn ar daith i Fferm Ffantasi yn Llanrhystud, cafwyd diwrnod bendigedig gyda'r haul yn disgleirio i ni. Cafodd bob plentyn y cyfle i fwydo oen swci cyn mynd adre. Yna tro plant

blwyddyn 1 a 2 oedd hi i fynd i Lanerchaeron i ddysgu am hen draddodiadau ffermio a chael mynd am dro o amgylch y plasty. Mae nifer o ymwelwyr wedi dod atom i'n addysgu am ffermio organig ynghyd â phlannu gerddi mwy traddodiadol. Diolch i Thea DeKlein ac i Nick Rebeck am eu mewnbwn pwysig. Mae'n amser nawr i ni fynd ati i blannu yn ein gardd gymunedol ni, diolch i Helen Duffy am ei harweiniad.

Pan ddowch chi y tro nesaf, am dro i Ysgol Y Dderi, nodwch ar yr olygfa fendigedig sydd o'n hamgylch. Mae'r plant wedi bod yn cydweithio gyda Mr Roger, ein gofalwr di-flino, i drawsnewid yr ardd natur. Mae Roger yn 'un mewn miliwn' ac mae ei wybodaeth a'i allu yn y maes hwn yn ei wneud yn arweinydd da ar gyfer y prosiect. Mae hyn, ynghyd a'i gariad tuag at fyd natur wedi bod o gymorth mawr i ni drawsnewid yr ardal yma. Diolch o galon Roger.

Bu Mrs Ann, Miss Fiona, Ceri, Ffion a Tierney mewn seremoni wobrwyo ym Mirmingham. Derbyniwyd tlws oedd yn ein llongyfarch ar waith arbennig ym maes doleni rhyngwladol, sef ennill gwobr rhyngwladol am dair blynedd yn olynol sy'n cwmparu gwaith naw mlynedd. Mae'r ysgol bellach wedi creu cysylltiadau amrywiol trwy Ewrop, Patagonia, Siapan a Tsieinia, tipyn o gamp yn wir.

Rydyn ni wedi cynllunio ac adeiladu ein Harwr Eco Rhyngwladol. Mae'n ffrindiau o'r Eidal, Norwy, Twrci a Latfia wedi adeiladu arwr eco hefyd. Ein nôd yw dysgu sut i ailgylchu gwastraff a rhannu gwybodaeth gyda'n gilydd. Rydyn ni wedi trafod gyda'n gilydd ac wedi penderfynnu gofalu am ein byd yn well. I greu Alwyn, rydyn ni wedi ailgylchu plastig, papur, hen beipen, menig, tinsel, mop, cregyn, cardfwrdd, tuniau o bob math a hen esgidiau glaw. Mae e'n arwr rhyngwladol achos mae ganddo got frithwaith wedi ei wneud o faneri'r gwahanol wledydd. Rydyn ni am ddysgu'n rhieni a phobl yr ardal i ailgylchu eu gwastraff, dywedwn wrthynt am gasglu eu sbwriel a'i roi yn sach Alwyn.

CYFARFOD  
BLYNYDDOL  
Papur Bro CLONC  
ar nos Fawrth, Mai 19fed  
am 7:00y.h.  
yn Nhafarn Cefnhafod,  
Gorsgoch.  
Bydd lluniaeth ysgafn  
yn dilyn.  
CROESO CYNNES  
I BAWB.



# Llanbedr Pont Steffan

Ysgol Ffynnonbedr



Yn y llun mae Rhiannon Davies a Gavin Evans cynrychiolwyr disgo Dewi, Rhys Jones a Sara Evans capteiniaid Pedr - y tîm buddugol, Joshua Yardy arweinydd côr Pedr a Reuben Beddoe a Jade Lloyd capteiniaid Steffan. Yn y res gefn mae Mr a Mrs Gareth Jones beirniaid, y Cyng Ivor Williams Cadeirydd y Llywodraethwyr a'i wraig a Mr Huw Jenkins prifathro.

## Diolch

Mae Douglas, gŵr y diweddar Bet Jones a'r teulu am ddiolch am yr holl gardiau a'r cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a mam-gu annwyl.

## Ysgol Ffynnonbedr

Cafwyd Eisteddfod Gwyl Ddewi hyfryd iawn yn yr ysgol. Beirniaid y dydd oedd Mr Gareth Jones cyn Gyfarwyddwr Addysg Ceredigion a'i wraig Liz. Oddi wrth eu hymateb ar ddiwedd y prynhawn roeddent wrth eu bodd â safon yr eitemau a gwaith y plant.

Yn y bore rhoddwyd eitemau gan y gwahanol ddosbarthiadau a chofnodwyd canlyniadau'r gwahanol gystadleuaethau celf ac ysgrifennu. Coronwyd y bore gan y corau a phlant Pedr oedd enillwyr cwpan Dorothy a Eirwyn Williams gyda Steffan yn ail a Dewi yn drydydd.

Canmolwyd gwaith y storiwyr gan Mr Gareth Jones ac ym mhrif gystadleuaeth y bore yn y ffrwd Gymraeg Lucy Hill a gipiodd y wobr gyntaf gyda Cara Rowcliffe yn ail a Dafydd Evans drydydd. Yn y ffrwd ail iaith Theo Teasdale enillodd y wobr gyntaf gyda Leela Attala-Gibson yn ail a Thomas Williamson Ward yn drydydd.

Pedr oedd y tŷ a enillodd darian Noel a Hazel Davies am farciau uchaf y bore.

Wedi gweithgarwch y prynhawn ac yng nghanol sŵn a rhialtwch y cystadlu daethpwyd at brif gystadleuaethau'r sesiwn - y disco, y côr a'r cadeirio.

Mewn cystadleuaeth agos, liwgar enillwyr tarian Christine Edwards i'r Disco gan Dewi. Wedi derbyn eitemau hyfryd gan y corau dyfarnwyd mai Pedr oedd yn haeddu'r cwpan. O safbwynt y cadeirio wedi beirniadaeth lawn

bwrpasol gan Mr Gareth Jones anrhydeddwyd ym Mlynnyddoedd 3 a 4 Ffrwd Gymraeg 1. Tanwen Owens 2. Erin Miller 3. Ffion Green ac yn y Ffrwd Ail-iaith 1. Brianna Delve 2. Laura Arthur a 3. Helen Casiday.

Ym Mlynnyddoedd 5 a 6 y rhai a ddaeth i'r brig oedd - Ffrwd Gymraeg 1. Kelly Morgans 2. Sara Evans 3. Rhys Jones ac yn y Ffrwd Ail-iaith 1. Dylan Hemmings 2. Jake Bryden Cyfartal 3ydd Gabriel Davies a Joshua Yardy - llongyfarchiadau i bawb.

Enillwyr yr eisteddfod gyfan gan dderbyn tarian y Cyng a Mrs K Ramaya oedd Pedr. Roedd yn amlwg fod eu capteiniaid Rhys Jones a Sara Evans wrth eu bodd. Cyflwynwyd y tarianau a'r cwpanau i'r enillwyr gan y Cyng Ivor a Mrs Williams - diolch iddyn nhw am eu gwaith. Diolch hefyd i bawb a sicrhodd fod y diwrnod yn un llwyddiannus.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod gylch yr Urdd a diolch i bawb a fu'n eu hyfforddi.

Unawd dan 8 - 3ydd Joseph Saunders

Llefaru i ddysgwyr dan 8 - 2ail Maryyah Abdul Halim 3ydd Aisvarya Sridar

Unawd bl 3/4 - 1af Charlotte Saunders

Llefaru bl 3/4 - 2ail Tomos Jones, Adran Llamed

Unawd Cerdd Dant 3/4 -

2ail Charlotte Saunders

Llefaru i ddysgwyr 3/4 -

2ail Jordan Evans

3ydd Robert Jenkins

Llefaru i ddysgwyr 5/6 -

2ail Kaydee Evans

Parti Unsain - 1af

Côr - 1af

Unawd bl 5 a 6, Cerdd Dant, Alaw Werin - 1af Meirion Thomas, Adran Llamed

Cerdd Dant - 3ydd Caryl Jacob  
Llefaru 5/6 - 2ail Meirion Thomas  
Dawns disgo unigol - 2ail  
Charlotte Saunders

Dawns cyfrwng - 1af

Dawnsio disgo - 1af

Parti Unsain a Llefaru'r Adran  
- 1af

Yn eisteddfod sir yr urdd a gynhaliwyd yr Neuadd y Celfyddydau yn Aberystwyth ar ddydd Mercher Mawrth 18 cystadlwyd mewn dwy adran gan yr ysgol sef y Ddawns Cyfrwng a'r Dawnsio Disgo. Roedd safon uchel yn y ddwy gystadleuaeth gyda phedwar grŵp yn y Cyfrwng a chwech yn y Disgo. Hyfryd yw nodi i'r grŵp Cyfrwng ddod yn ail yn ei hadran hwy ac hefyd i'r grŵp Disgo gipio'r ail wobr yn yr adran honno. Llongyfarchiadau mawr i'r plant a gymerodd ran ac i'r athrawon a'u dysgodd mewn ffordd mor effeithiol.

Ar ddiwrnod y llyfr daeth nifer o'r plant a'u hoff storïau neu lyfrau ffeithiol i'r ysgol a chafwyd trafodaethau diddorol am eu cynnwys a'r hyn oedd yn apelio at y disgyblion.

Cafwyd sesiynnau Iaith a Chwarae o dan adain yr Uned Feithrin pan wahoddwyd rhieni'r plant lleiaf i ddod i gyd-weithio â'u plant ar wahanol weithgareddau. Bu'r cyfnodau yn llwyddiant mawr a chafwyd llawer o hwyl.

Bu'r plant a gymerodd ran yn y rasys cylch yn fuddugol mewn nifer fawr ohonynt. Y canlyniadau oedd:-

Bechgyn blwyddyn 3 - 1af Iestyn Evans

Merched blwyddyn 3 - 2ail Grace Page

Bechgyn blwyddyn 4 - 2ail Robert Jenkins

3ydd Thomas Willoughby

Merched blwyddyn 4 -

2ail Tanwen Owens

Bechgyn blwyddyn 5 -

3ydd Jake Gartland

Merched blwyddyn 5 -

2ail Roksanna Trybula

3ydd Cerys Burrill

Bechgyn blwyddyn 6 -

2ail Reuben Beddoe

Merched blwyddyn 6 -

1af Caitlin Page

Llongyfarchiadau i bawb a diolch i Alec Page am noddi'r crysau.

Cynhaliwyd diwrnod Masnach Deg yn yr ysgol yn ddiweddar pan gyflwynwyd gwasanaeth ar y thema. Aethpwyd ati yn ystod y dydd i greu bwyd yn seiliedig ar gynhwysion masnach deg. Cafodd y plant gryn fwynhad tra'n help i hybu tegwch yn ein byd.

Er mwyn cefnogi 'School children for children' trefnwyd ras gyfnewid â pheli rygbi. Rhedodd y plant i gyd a'r staff gan godi arian sylweddol at yr achos da yma sy'n cynorthwyo plant mewn cymunedau tlawd fel Korogocho.

Nid yn unig casglwyd arian ond cafwyd modd i fod yn iachach drwy ystwytho'r cymalau. (Llun trawsglad gyda Tim)

## NESTA GWENFRON HARRIES Pedwar Ugain 14.03.09

Cyfarchion Penblwydd i  
Aelod ffyddlon a gweithgar  
Ym Methel Silian

Dymunwn benblwydd hapus  
I wraig arbennig iawn  
Sy'n troi ym myd y pethau  
A byw y bywyd llawn

Mam-gu a Mam anwylaf  
I'w theulu ydyw hi  
Ac 'Anti Nesta' hefyd  
I lawer wyddoch chi!

Mae'n ddiacones ddiwyd  
Ym Methel gyda'r gwaith  
Ac wrth yr organ rhoddodd  
Wasanaeth ar ei thaith

Bedyddwraig adnabyddus  
I'r Cymry ydyw hon  
A llawer araith grefftus  
Draddododd ger eu bron

Dymunwn iechyd iddi,  
Hir oes a hedd bob dydd  
Cans dedwydd ydyw bywyd  
Y rhai sy'n berchen ffydd.

Beryl Davies  
Llanddewi Brefi

## Merched Y Wawr

Cafwyd ein cinio blynyddol yng Ngholeg Prifysgol Llanbed ar y 9fed o Fis Mawrth. Croesawodd ein llywydd Janet Evans yr aelodau i'r noson arbennig yma. Offrymwyd gras gan Aerwen Griffiths, yr is lywydd. Ar ôl y ginio cyflwynodd Janet ein gŵr gwâdd sef Mr Lyn Ebenezer. Soniodd ei fod yn wyneb cyfarwydd i ni gyd gan ein bod yn ei weld a'i glywed yn aml ar y cyfryngau. Mae hefyd wedi ysgrifennu tua 25 o lyfrau. Darllen myfyrdodau o'i hunangofiant sef "Cae Marged" a wnaeth. Soniodd am gymeriadau diddorol ardal ei febyd sef Pontrhydfendigaid, lle erbyn hyn y mae wedi ail gartrefi. Diolchwyd gyda brwdfrydedd iddo gan Gwynfil Griffiths. Enillwyd y gwobrau raffl gan Gwyneth Morgan, Gwynfil Griffiths, Rhiannon Jones, Dorothy James, Dilwen Roderick, Mair Jones a Llinos Jones. Yna cafwyd cyfarfod busnes byr yn dilyn y ginio. Llongyfarchwyd Pat ac Eryl am ennill cystadleuaeth Dominos y rhanbarth a diolchodd Janet i bawb a fu'n cystadlu. I orffen y noson diolchodd Janet i staff y gegin am y pryd blasus a hefyd i Noeleen am wneud y trefniadau ar gyfer y noson ac i Pat am gasglu'r arian.



# Llanbedr Pont Steffan

## Cinio'r Llywydd Cenedlaethol

Penderfynwyd llogi bws i fynd i'r ginio yma yng Nghlydach ar y 4ydd o Ebrill. Yn ein cyfarfod nesaf ar 20 Ebrill bydd aelodau o Ferched y Wawr Llanybydder yn ymuno â ni i fwynhau arddangosfa coginio gan Alwen McConochie, enillydd cystadleuaeth Casa Dudley. Bydd hon yn noson agored a bydd croeso i bawb i ymuno â ni. Bydd angen i aelodau'r pwyllgor i gyfarfod am 6.40 p.m. i baratoi'r bwyd. Bydd y Gangen yn trefnu Cymanfa Ganu yn Noddfa ar yr 28ain o Fis Mehefin. Yr arweinydd fydd Rhiannon Lewis a'r cadeirydd fydd Catherine Williams, Cricieth (gynt o Lamed). Diolchwyd i Dilys Godfrey am fynd i'r pwyllgor Celf a Chrefft. Bu Janet a Noleen hefyd yn y pwyllgor rhanbarth. Soniwyd yno y byddai'r "brâs" a gasglwyd gan y mudiad yn gwneud cadwyn i fynd o amgylch y "babell binc" yn Eisteddfod Genedlaethol Y Bala.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

## Anrydeddu Bethan

Llongyfarchiadau i Bethan Phillips ar gael ei hethol yn Gymrawd o Brifysgol Dewi Sant, Llamed. Cynhaliwyd y seremoni yng Nghapel y Coleg ar nos Lun yr 2il o Fawrth fel rhan o'r gweithgareddau i ddathlu Gwyl Ddewi. Derbyniwyd Bethan gan y Dr. Brinley Jones, Llywydd y Coleg ac fe gafodd ei chyflwyno gan y Dr. Christine Jones. Yn ei chyflwyniad cyfeiriodd Dr. Jones at gyfraniad Bethan dros y blynyddoedd ym myd hanes lleol, addysg a'r cyfryngau. Yn fuan wedi symud yn ôl i'w thref enedigol, aeth Bethan ati i olrhain hanes Syr Herbert Lloyd, Ffynnonbedr, ac ar ôl derbyn gradd M.A. cyhoeddodd y gyfrol 'Peterwell', sy'n gyfraniad campus i hanes Llamed. Aeth ati wedi hynny i sgriptio ar gyfer rhaglenni ar y radio a'r teledu. Cyflwynodd sgriptiau ar gyfer cyfresi fel Almanac, a chafodd lwyddiant mawr drwy gydweithio a'r cynhyrchydd Paul Turner ar y gyfres 'Dihirod Dyfed.' Bu hon yn gyfres hynod boblogaidd ar S4C, ac fe ddarlledwyd deuddeg o raglenni i gyd. Yn sgil hynny cyhoeddodd gyfrol yn dwyn yr un teitl ac fe ddefnyddiwyd honno ar gyfer arholiadau TGAU am rai blynyddoedd. Bu'n gweithio am gyfnod gyda plant ysgol yn creu fideos. Yn eu plith ceir un ar Islwyn Ffowc Elis a wnaed gan blant yr Ysgol Uwchradd ac un arall yn dwyn y teitl Ffynonellau gan blant yr ysgol Gynradd. Aeth ati i astudio dyddiaduron Joseph Jenkins y Swagman gan ysgrifennu'r

gyfrol 'Rhwng Dau Fyd' a oedd yn un o dri ar y rhestr fer am Lyfr y Flwyddyn. Dilynwyd hon gan y gyfrol 'Pity the Swagman.' Ar ôl ymweld ag Awstralia fe sgriptiodd ddwy ffilm deledu ar gyfer y BBC, un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg ar fywyd y Swagman. Bu ei chyfrol olaf 'The Lovers' Graves' yn hynod o boblogaidd a bu'n rhaid ei hail argraffu yn fuan iawn. Bu Bethan wrthi hefyd yn olrhain hanes Sioe Llamed a chyfrannodd i'r gyfrol ar hanes Ysgol Ffynnonbedr. Mae'n dda, felly, gweld y Brifysgol yn cydnabod llafur un sy'n hanu o dref Llanbedr Pont Steffan.

## Dydd Gweddi Byd – Eang Y Chwiorydd

Daeth cynrychiolaeth deilwng iawn ynghyd i Shiloh i wasanaeth arbennig ar Ddydd Gweddi Byd – Eang Y Chwiorydd a baratowyd eleni gan Chwiorydd Papua Guinea Newydd ar y thema "Yng Nghrist y mae aelodau lawer ond un corff." Cymerwyd rhan gan Chwiorydd eglwysi Bethel Parcyrrhos, Bethel Silian, Brondeifi, Caersalem, yr eglwys Gatholig, Noddfa, Shiloh, Soar, Sant Iago, Sant Pedr a Sant Tomos. Gyfaethogwyd yr oedfa yn fawr gan anerchiad pwrpasol a diddorol Mrs Meima Morse yn llawn sylwedd ac yn llawn hiwmor ac yn seiliedig ar y thema. Mae ganddi ddawn arbennig o gyfathrebu â'i chynulleidfa. Diolchodd Mrs Eirian Williams i'r siaradwraig wadd am ei chyfraniad gwerthfawr, i'r aelodau o'r gwahanol eglwysi am gymryd rhan, i Eurwen Davies am ei gwasanaeth wrth yr organ, ac yn olaf ond nid lleiaf i Weinidog a Swyddogion Shiloh am gael cynnal ein gwasanaeth yno. Casglwyd swm sylweddol iawn o £140- diolch o galon i bawb am eu haelioni.

## Aelwyd yr Urdd

Ar ddydd Mwrth, 24 Chwefror, cynhaliwyd Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Ffynnonbedr. Gan ei bod yn ddydd Mawrth Ynyd, penderfynwyd trefnu cael noson o flasau pancws. Daeth 36 o bobl i'r noson a diolchwn yn fawr i Mair Williams, mam Sian Elin, am fodloni dod i'n plith. Dysgodd Mair i ni sut i goginio'r pancws a chafwyd llawer o sbort yn eu taflu- rhai bron cyrraedd y tô ac eraill ar y llawr! Carwn ddiolch yn arbennig i Mair am goginio dwseni o bancws ymlaen llaw fel ein bod yn medru eu mwynhau gyda nifer o wahanol flasau- yn fwyaf arbennig saws siocled, saws mefus, lemwn, banana a mefus ffres. Penderfynodd rhai wrth gwrs i gymysgu'r cwbl gyda'i gilydd gan lyfu eu gwefusau'n fodlon ar y diwedd! Bu Janet, Geinor Medi a Guto yn cadw trefn a diolchodd Lewis Watkins i Mair ar ddiwedd noson llawn hwyl a sbri.

Daeth criw niferus o aelodau ynghyd â'r Fawrth y 10fed i fwynhau Eisteddfod Ddwl sef un o uchafbwyntiau'r tymor. Dewiswyd tri tîm sef Joio mas Draw, Y Bobol Ddwl a Phlant y Meithrin. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn cymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol yn cynnwys stori a sain, haca i dîm rygbi Cymru, parti llefaru dan 6 oed, côr mas o diwn a chreu darlun allan o sgwigl. Cawsom wasanaeth beirniaid o fri sef Llinos a Tomos Rhys a bu'r ddau wrthi'n brysur iawn yn dewis y goreuon yng nghanol y chwerthin i gyd. Seren y nos heb os oedd Lewis-roedd ei gyfraniad unigryw yn y gystadleuaeth stori a sain yn un lliwgar a doniol tu hwnt a erys yn y côf am amser hir. Roedd hon yn noson ddifys dros ben, ac amlygwyd talent disglair sawl unigolyn. Diolchodd Lewis i'r beirniaid am eu gwaith ardderchog a hefyd i Janet, Helen a Guto am gynorthwyo.

Llongyfarchiadau calonnog i'r aelodau ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Gylch. Dyma'r canlyniadau: Unawd Bl 7-9, 1. Gwawr Hatcher, 2. Lowri Elen, 3. Meleri Davies. Llefaru Bl 7-9, 1. Lowri Elen, 2. Sioned Hatcher, 3. Gwawr Hatcher. Unawd Cerdd Dant Bl 7-9, 1. Lowri Elen, 2. Gwawr Hatcher. Unawd Bechgyn Bl 7-9, 1. Aron Dafydd. Alaw Werin Bl 7-9, 1. Lowri Elen, 2. Dewi Uridge, 3. Gwawr Hatcher. Deuwad Bl 7-9, 1. Meleri Davies a Gwawr Hatcher, 2. Sophie a Lauren Jones. Unawd Telyn, 1. Lowri Elen, 2. Gwawr Hatcher. Unawd Piano Bl 7-9, 1. Gwawr Hatcher. Unawd Merched Bl 10 a dan 19 oed, 1. Elliw Dafydd. Llefaru Bl 10 a dan 19 oed, 1. Hedydd Davies. Alaw Werin Bl 10 a dan 19 oed, 2. Hedydd Davies. Monolog Bl 10 a dan 19 oed, 1. Elliw Dafydd. Unawd Bechgyn Bl 10 a dan 19 oed, 1. Aled Wyn Thomas. Daeth llwyddiant mawr i rai o'r aelodau yn Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ar Fawrth 20fed. Cipiwyd 13 o wobrau yn cynnwys 5 cyntaf, 7 ail ac un trydydd sydd yn gamp arbennig iawn. Llongyfarchiadau i'r grŵp llefaru, y parti deusain, Hedydd Davies, Elliw Dafydd a Lowri Elen ar ddod i'r brig. Ceir lluniau yn Clonc mis Mai.

## Shiloh

Penderfynodd y Gymdeithas Ddiwylliadol orffen y tymor drwy ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol dydd Iau 5ed o Fawrth. Roedd hynny yn digwydd bod yn ddiwrnod y Llyfr, a'r gwestai am y dydd oedd y dyfarnwr rhyngwladol Nigel Owens. Roedd Theatr y Drwm yn gyfforddus iawn tra bu'r dyfarnwr poblogaidd yn ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â'i fywyd a'i ddyletswyddau fel dyfarnwr proffesiynol. Cafwyd

atebion gonest a didwyll ganddo wrth iddo sôn am gyfnodau tywyll ac anodd yn ei fywyd. Soniodd am gefnogaeth ei rieni ac am y gymdeithas glos ac am ei gariad tuag pentre Mynyddcerrig lle ei magwyd. Yr ail ran o'r prynhawn cafwyd cyflwyniad gan Lyn Lewis Dafis o'r ffilm gan y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg o 'Gapeli Cymru.' Diddorol dros ben oedd gweld capeli hanesyddol Cymru ac enwedig hen draddodiadau fel canu'r pwnc gan y gynulleidfa yng nghapel y Bedyddwyr yn Rhydwylm yn Sir Benfro. Mae ein diolch yn fawr i Rhys Bebb Jones am wneud y trefniadau ar gyfer y diwrnod. Diolchodd y Parch. Elwyn Jenkins i holl swyddogion y gymdeithas gan gynnwys y Llywydd Mrs Margaret Jones, yr ysgrifennydd Owen Jones a'r trysorydd John Davies am eu cyfraniad tuag at lwyddiant y gymdeithas eleni eto. Ar y ffordd adref yn y bws, cyfeiriwyd at yr anrhydedd a ddaeth i ran Mrs Bethan Phillips wrth iddi gael ei anrhydeddi yn Gymrawd Prifysgol Llamed. Mae Bethan bob amser yn barod ei chymwynas ac wedi siarad â'r gymdeithas ar sawl achlysur yn y gorffennol. Ein dymuniadau gorau i'r Llywydd newydd y tymor nesaf, Mrs Mair Lewis, a chroeso cynnes i bawb i'r chyfarfodydd.

## Cerddwyr

Mae'r cinio blynyddol yn rhan o ddyddiadur gymdeithas y cerddwyr. Braf oedd cael cwrdd canol dydd yn ngwesty'r Glynhegog. Y gŵr gwadd oedd Dr David Thorne. Cawsom hwyl fawr yn gwrandao arno yn siarad am enwau cartrefi a chaeau yn yr ardaloedd lleol ac yn sôn am eu tarddiad. Diddorol iawn oedd ei sylwadau am un enw lleol cyfarwydd sef Dol Wolff. Diolch yn fawr i Dr Thorne am rannu ei drysorau â ni. Dydd Sadwrn roedd Iori yn arwain taith i Gaio gan edrych o amgylch yr hen bentref i ddechrau. Mae'r eglwys a'r bythynnod yma yn dangos hanes cymdeithas lawn sef ysgol, capel a thafarn yn y canol. Cerdded wedyn i fyny fforest Caio heibio Bronffin a chael seibiant weithiau ar lwybr gwyrdd cyn cyrraedd mynydd Mallaen. Heibio Rhyd-ddu wedyn a chyrraedd y groesffordd sy'n arwain i Gilycwm, Rhandirmwyn a Chwrt y Cadno ond mynd nôl dros y caeau i Glan Meddyg. Dringo un rhiw arall sef Cwmcerwyn ac roedd Gerwyn yn hapus cyn treodio lawr i ddyffryn Annell, ac yn ôl i Gaio. Diolch yn fawr i Iori.





# Llanbedr Pont Steffan

## Diolch

Dymuna Mrs Nesta Harries ddiolch yn gynnes i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion, y galwadau ffôn a phob caredigrwydd yn ystod dathlu ei phenblwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch o waelod calon i chi gyd.

## Cartref Hafan Deg

Ar nos Fercher y 4ydd o Fis Mawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr. Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr oedd fel a ganlyn; Dynion: 1af Mary Jones, Stryd y Bont, Llambled, 2ail Gwen Davies, Llanwnnen, Cydradd 3ydd Ray Jenkins, Llanybydder a Peggi Davies, Felinfach. Merched: 1af Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambled, 2ail Margaret Jones, Pentrebach, 3ydd Mari Evans, Llanwnnen. Sgor Isaf- Dynion Edward Lockyer, Hafan Deg; Merched Mary Thomas, Talgarreg. Bwrw Allan, Enillwyd- Ray Jenkins, Llanybydder a Gwenda Davies, Bronhenllys, Felinfach; Ail- Iorwerth Evans, Llangybi a June Mason, Llambled. Diolchodd y trefnydd Mrs Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth.

## Cymdeithas Hanes

Caradog Jones, Rhodfa Glynhebog, oedd siaradwr gwadd y Gymdeithas yng nghyfarfod mis Mawrth, - un o aelodau selocaf y gymdeithas o'r dechrau. Testun ei araith oedd "Dilyn dwy afon,- y Cothi a'r Teifi".

Hanes ei waith fel beili dŵr a gafwyd, ac yr oedd wedi dod a nifer o offer anghyfreithlon a ddefnyddwyd gan botsieriaid, ac yn naturiol ddigon, roedd yna stori i'w hadrodd ynghlŷn â phob un ohonynt.

Diddorol oedd clywed enwau rhai o'r pyllau yn yr afonydd, a swm y pysgod a dynnwyd ohonynt. Yn 1902 er enghraifft, daliwyd 254 o eogiaid yn y Teifi, tra yn 1904 daliwyd tair tynnell ar hugain o bysgod o'r un afon. Daw'r ystadegau hyn o lyfrau 'log' a gadwyd gan y Beili dŵr ar y pryd. Clywyd sôn am ambell i bysgotwr o Llanbedr yn y cyfnod hwnnw, - ac ambell i botsiar hefyd, ond gwell peidio a dweud rhagor am hynny !! Roedd y dwrgi bron iawn a diflannu o'r afonydd yma, ond da yw dweud ei fod yn cynnyddu mewn nifer erbyn hyn. Hyn yn dangos fod yna gynnydd yn y pysgod hefyd, - newyddion da i'r pysgotwyr yn yr ardal.

Diolchwyd yn gynnes i Caradog gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, gan nodi fod ei hiwmor arbennig yn gwau drwy ei straeon, a hynny'n ychwanegu at yr hanesion.

Yn wir, roedd y noson ei hun yn un hanesyddol, gan mae dyma'r araith gyntaf i'w throsglwyddo yn gyfan gwbl yn y Gymraeg, a chaed cyfiaethad ar y pryd gan George Jones i'r aelodau di-Gymraeg. Mwynhawyd 'paned o de neu goffi cyn ymadael.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 21ain, 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd Jen Cairns yn dangos a dweud sut y mae mynd ati i ymchwilio i hanes tai. Croeso cynnes i bawb.

## Capel Brondeifi

Tristwch mawr i ardaloedd Cellan, Llanbedr ac yn enwedig i bawb a chysylltiad a chapel Brondeifi oedd

clywed am farwolaeth Mrs Dinnie Rees, Ffosiwydd yn ystod wythnos olaf Mis Chwefror. Cynhaliwyd yr angladd yn Brondeifi a chydymdeimlodd y Parch Goronwy Evans yn ddiffuant iawn â'r teulu ar golli Mam, Mamgu, Hen Famgu, chwaer a ffrind annwyl. Soniodd amdani fel gwraig eu haelwyd a'i theulu a wynebodd ei salwch yn ddewr, bob amser yn dawel, pwylllog a doeth a bydd y bwlch ar yr aelwyd, o'i cholli, yn fawr iawn.

Yn ystod Mis Mawrth daeth tristwch i ddwy aelwyd arall sydd a chysylltiad a'r capel sef; Mrs Blodwen Williams, Plas y Bryn, Mam yng Nghyfraith i Mrs June Williams, Esgairgoch, Estynwyd cydymdeimlad a June, ei phriod a'r teulu yn eu hiraeth. Bu Mrs Williams yn aelod ffyddlon iawn o Urdd y Benywod, Brondeifi am flynyddoedd lawer a soniodd Mr Evans amdani fel un o'r rhai olaf o'r hen broffesiwn o fod yn wniadwraig

Eto yn ystod yr un wythnos gwelwyd claddu cymeriad arall o dref Llanbedr sef: Mr Glyn Evans, y Nook, neu 'chuckler' fel yr adnabyddid ef gan ei gyfeillion. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei weinidog, y Parch Goronwy Evans, a rhoddodd deyrnged hyfryd iawn i'r cymeriad hoffus yma. Roedd ei gysylltiad ef a Brondeifi yn mynd yn ôl i'w gyndeidiau ac er nad yn mynychu'r gwasanaethau roedd ganddo gornel cynnes iawn yn ei galon bob amser i'r capel. Estynwyd cydymdeimlad diffuant iawn a Mark, Greg, Dawn a'r teulu

Dathlwyd Gwyl Dewi eleni eto yn y modd traddodiadol a chafwyd eitemau pwrpasol gan Daniel, Bryn, Dafydd ag Undeg gyda Mrs Meinir Jones, Hendai yn cyfeilio, a'r gwasanaeth yng ngofal y Parch Goronwy Evans eto yn dilyn yn nhraddodiad Gwyl ein Nawddsant. Cyfeiliwyd gan Mrs Eleanor Russell a bu Undeg a Hanna yn brysur yn casglu. Yn dilyn trodd pawb i'r festri i fwynhau gwledd o gawl a phwddin crwbwl wedi ei baratoi, yn absenoldeb teulu Ffosiwydd, gan Heini Thomas, Pentrebach. Diolchwyd iddi am ei gwaith bendigedig, ac i bawb a'i cynorthwyodd, gan y gweinidog

Mewn awyrgylch gartrefol a hapus bedyddiwyd Dion Sion Hughes, mab bach Heather a Kevin Hughes yng ngwasanaeth bore Sul, 15fed o Fawrth.

Edrychir ymlaen at groesawu Clive Evans, Brynmaen, sydd yn dal swydd uchel gyda'r Groes Goch i ddod i siarad a ni am ei waith ar Sul olaf y mis. Yn ymuno ag ef i gymryd y gwasanaeth fydd gweddill teulu Brynmaen, Teulu Douch ac Ann Ewart a theulu Esgairgoch.

Bydd Gwasanaeth Sul y Pasg yn wasanaeth arbennig pan fydd derbyn aelodau a chyfeillion yr achos newydd.

Mae gwahoddiad wedi dod i aelodau a chyfeillion Brondeifi i ymuno yn nathliadau 10 mlwydd oed Ty Hafan ar Sul 28ain o Fehefin. Unrhyw un sydd a diddordeb yn mynd ar y daith i roi eu henwau yn y dyfodol agos i Aneurin Jones, Hathren.

## Priodas Aur

Longyfarchiadau lu i Arthur a Dilwen Roderick, Awelon ar eu Priodas AUR ar Ebrill 4ydd. Mwynhewch y dathlu.



Ar Ddiwrnod y Llyfr sef y 5ed o Fawrth cynhaliwyd Noson y Gwragedd Cylch Cinio Llambled yng Ngwesty Glynhebog a chafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni un o awduron disglair ac ifanc y Sir sef Caryl Lewis yn sôn am ei hysgrifennu a'i llyfrau. Yn y llun gyda Caryl Lewis mae (o'r chwith) Owen Jones, John Davies, Twynog Davies, Alan Morgan, Ieuan Roberts a Rhys Bebb Jones, Swyddogion Cylch Cinio

## Eira, eira a mwy o eira!

Roedd yn fore oer yn Ionawr a'r lawnt yn sgleinio dan haen o eira gwyn. Mewn coeden unig yng ngwaelod yr ardd roedd teulu Wil Wiwer yn cysgu'n drwm. Roedd y gaeaf yn galed, yn wyn ac yn oer. Dyna lwcus oedd y teulu bach i gael lle cynnes a chlyd i gysgodi dros y gaeaf. Wrth i'r dydd fynd yn ei flaen dyma hi'n codi gwynt.

Dihunodd chwiban y gwynt y Wiwer fach o'i thrwmgwsg. Agorodd ei llygaid yn araf bach. O'i chwmpas gwelodd ei theulu'n cysgu'n drwm, yn union fel peli o wllan pigog. Penderfynodd peidio â diuno'u rhieni. Dringodd i fyny nes cyrraedd y drws ffrynt. Sbeciodd trwy'r drws a gweld blanced o eira gwyn ar y llawr ac ar y coed ac ar bob peth o gwmpas.

O! Roedd hyn yn gyffrous. Sbonciodd yn gynhyrfus allan o'r goeden a disgyn ar yr eira gwyn, ond o roedd yn oer! Aeth yn ei blaen yn benderfynol o gael hwyl a sbri. Yn gyntaf aeth i'r pwll dŵr i weld ei ffrind Bili Broga. Roedd y llyn wedi rhewi'n gorn. Doedd dim golwg o Bili yn unman. Pwy arall fyddai ar gael i chwarae triciau tybed?

Sbonciodd ymlaen i gyfeiriad yr hen sied ar dop yr ardd. Mi fyddai Caleb Crwban yn siwr o ddod allan i chwarae. Fe fyddai wrth ei fodd yn llythro ar ei gefn ar draws y pwll rhewllyd. Gwaeddodd "Caleb, Caleb. Wyt ti eisiau dod allan i chwarae?" Doedd dim ateb. Gofynnodd unwaith eto. Daeth dim ateb o'r sied. Roedd hi'n dawel fel y bedd. Meddyliodd wrth ei hun, "Oes 'na rywun eisiau dod allan i chwarae?"

Cofiodd yn sydyn am Neli Neidr. Heb oedi mwy, sbonciodd yn syth i gyfeiriad y gwely o goed wrth y sied lo. "Neli, Neli. Wyt ti yno Neli?" gofynnodd Wiwer fach yn llawn gobaith. Doedd dim siw na miw na dim cyffro yn dod o'r coed. Roedd hi'n siomedig tu hwnt, ond aeth yn ei blaen.

Dewi Draenog oedd nesa'r ei rhestr. Sbonciodd i gyfeiriad y pentwr o ddail wrth droed y dderwen. Palodd a phalodd nes dod o hyd i'r draenog bach yn gwrlid bach pigog. "Dewi, Dewi, dere'i chwarae. Mae'r byd i gyd yn wyn. Beth am adeiladu dyn eira?" gofynnodd i'w ffrind bach. "Gad lonydd i mi gysgu" atebodd hwnnw'n swta, gan droi ei gefn a dechrau chwyrnu'n braf.

Gan deimlo'n drist iawn aeth Wiwer fach i chwarae ar ei phen ei hun. Er hyn, doedd chwarae ar ei ben ei hun ddim hanner mor gyffrous a chwarae gyda Bili, Caleb, Neli a Dewi. Doedd e ddim yn hwyl o gwbl! Erbyn hyn roedd ei bola'n galw. Edrychodd o gwmpas am ryw beth blasus i'w fwyta. Doedd dim golwg o fesen, o afal na'r un gneuen flasus yn unman. Roedd rhaid bodloni ar bethau brown – dail wedi crino, rhisgl coed a choncyrs wedi pwdr. Diflas iawn.

Roedd hi'n dechrau nosi a'r lawnt yn ddisglair yng ngholau'r lleuad. Heb gwmni a heb fwyd ac yn crynu fel deilen doedd dim amdani ond troi tua thre. Sbonciodd yn ddigalon yn ôl i'r twll yn y goeden yng nghwaelod yr ardd. O, roedd hi'n braf cael swatio'n glyd yn ei gwely unwaith eto. Teimlai rhywbeth caled yn ei phrocio yn ei chefn. Estynodd ei llaw a gafael ynddo. Wel, yn wir. Mesen fach felys oedd yno yn barod i'w bwyta. Hon oedd y fesen melysaf erioed. Wedi'r antur yn yr eira, a'i bola'n dyn roedd hi'n barod nawr i fynd i gysgu'n drwm dros y gaeaf. Caedd ei llygaid yn dynn, dynn a chysgu'n braf.

*Sioned Martha Davies*



**Ceris Morgan**  
yn trin gwallt yn eich cartref



**Torri a sychu, steilo a lliwio,  
cwrlo a gosod gwallt ar gyfer  
achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol.  
**Ffoniwch: 07738 492613**  
*Cwmann*  
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

**Terry Jones**



**Ffotograffydd**  
**www.terrywjones.co.uk**

1 Cwrt Deri  
Cwmann  
Llanbedr Pont Steffan  
01570 421 173  
07970825724

**Mwnci ffwnci**



Brodweithio  
a Phrintio Dillad.  
Darparu  
Dillad Gwaith  
a Hamdden.  
**Sioned Green**  
a **Mared Jones**  
Nantgwyn,  
Heol Llanfair  
Llambod  
**01570 423135**  
07811917799 /  
07968821035  
mwnciffwnci@hotmail.com

**COMPASS**  
**OFFICE**  
**SUPPLIES**

Am eich holl  
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol  
Llambod, Heol Tregaron,  
Llambod.

01570 422955  
01570 422232



**Toriad**  
**Taclus**

Mae Toriad Taclus  
Wedi newid siop  
Mae ar Heol Caerfyrddin  
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

**Cwmann**

#### Sefydliad y Merched Coedmor

Croesawyd yr aelodau gan Ann ein Llywydd i'r Hedyn Mwstard ar nos Lun, Mawrth yr ail i ddatlu Gwyl Ddewi. Cafwyd noson arbennig o dda gyda chawl, phwddin a chagennau cymreig blasus dros ben, a phawb yn teimlo eu bod wedi cael gwledd yw gofio.

Ein siaradwraig wadd oedd Rhian Davies, Pensarnfach, Cribyn. Mae Rhian yn Ddirprwy yn Ysgol Gynradd Castell Newydd Emlyn a bu'n siarad am ei thaith allan i Halifax yng Nghanaada yn mis Awst 2008 i aros gyda'i ffrind. Penderfynodd aros am dridiau yn Efrog Newydd ac roedd ganddi lawer o straeon am yr hyn a welodd allan yn Efrog Newydd a llu o luniau i gofio am ei thaith.

Diolchwyd i Rhian am noson ddiddorol gan Gwen a diolchodd hefyd i'r Hedyn Mwstard am y croeso a'r bwyd bendigedig roeddynt wedi paratoi i ni.

Ennillwyr yr raffl oedd - Gwen, Glesni, Veronica a Bethan.

#### Ysgol Carreg Hirfaen

Ar ôl cynllunio a pharatoi yn yr ysgol teithiodd plant blynyddoedd 5 a 6 i Ysgol Uwchradd Tregaron ar gyfer gweithdy celf. Yn ystod yr ymweliad cawsant gyfle i arbrofi gyda dulliau gwahanol o arlunio trwy wneud argraffiad leino. Mae ein diolch yn mynd allan i Mr Huw Williams, athro Celf yr ysgol, am ddiwrnod arbennig.

Bob dydd Iau mae blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn ffodus o gael ymwelwyr o sefydliad Bible Explorers. Yn ogystal a hyn cawsant gyfle i ddysgu am ddemocratiaeth gyda Mr Aled Williams.

Ar fore dydd Mercher, Chwefror 25ain aeth blwyddyn 5 a 6 i gael hyfforddiant Hoci yn Ysgol Tregib, Llandeilo. Roeddent wedi dysgu sgiliau sylfaenol drwy chwarae yn hwylus.

Ar fore dydd Mawrth, Mawrth 3ydd daeth Nia Wyn John allan i gynnal gweithdy gyda blwyddyn 5 a 6. Ei phwnc oedd Dinasyddiaeth. Rhoddodd dasgau i'r plant i feithrin eu sgiliau meddwl a thrafod. Roedd yn rhaid iddynt gytuno ac anghytuno mewn grwpiau ar yr amrywiol dasgau y cawsant. Profiad buddiol iawn i'r disgyblion.

Cafwyd Eisteddfod Gwyl Ddewi ragorol eleni i fyny yn Neuadd Brofana. Y beirniaid oedd Mrs Myfanwy Bryce a Mr Eric Williams. Cystadlodd pob un o blant yr ysgol yn unigol ar lwyfan yr Eisteddfod, yn ysgrifenedig trwy waith llên a llun, ac ar ddiwedd y dydd yn y gystadleuaeth Corau. Llongyfarchiadau i Alis Butten, Lisa Elan a Chloe Lewis am ennill Cadair, Coron a tharian yr Eisteddfod am lenyddiaeth Gymraeg

a Saesneg, ac i Mared Owen a Lisa Elan am ennill y tlws i'r disgyblion efo'r nifer uchaf o bwyntiau ar y dydd. I gynnal naws Gwyl Ddewi'r diwrnod, paratowyd Cawl blasus i bawb gan staff arlwygo Carreg Hirfaen. Diolch i Joan a'i chriw am hyn.

Diolch yn fawr iawn hefyd i Mrs Luned Owen am ganu'r piano trwy gydol y dydd yn yr Eisteddfod Ysgol.

Ar Fawrth 5ed fe ddatlodd yr ysgol 'Ddiwrnod y llyfr' mewn steil trwy wisgo i fyny fel cymeriadau allan o nofelau a cherddi T. Llew Jones. Cawsom gymysgfa o fôr ladron, smyglwyr, lladron pen ffordd a nifer o ferched hyfrytaf y Byd!

Daeth ymwelydd pwysig o Swyddfa'r Heddlu i weld plant blynyddoedd 1, 2, 3 a 4 ar y 5ed o Fawrth. Dysgom am bwysigrwydd diogelwch ac ymddygiad ar y stryd fawr.

Hoffem longyfarch Rebecca Harrison ar ennill gwobr yng nghystadleuaeth arlunio a gynhaliwyd gan y Siop 'Organig' yn Llambod. Hefyd, llongyfarchiadau mawr i grwp Cwis Llyfrau Blynyddoedd 5 a 6 ar ennill cystadleuaeth y cylch - pob lwc iddynt yng nghystadleuaeth y Sir ar ddechrau mis Mai.

Mae nifer o'r plant wedi bod yn paratoi yn drylwyr ar gyfer Eisteddfod Cylch yr Urdd. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd rhan, a phob lwc i Mared Owen, Julianna Barker, Sian Baddeley, aelodau'r parti Cerdd Dant a'r Côr a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Cylch ym Mhontrhydfendigaid ar Fawrth 28ain. Llongyfarchiadau i'r arlunwyr Sian Baddeley ac Owen Douglas ar ennill gwobr yn yr adran Gelf a Lisa Elan a ddaeth yn ail yn y canu i flynyddoedd 1 a 2.

Yn ogystal ag Eisteddfod yr Urdd mae nifer o'r plant wedi dangos ei ffitrwydd yng nghystadleuaeth Trawsgwlad yr Urdd. Llongyfarchiadau i bob un am gymryd rhan ac yn arbennig i enillwyr medalau aur sef Beci Harrison, Daniel Thomas, Mared Owen a Shaun Phillips. Pob lwc i'r rhai a fydd yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Cylch yn Nhrawsgwlad y Sir a gynhelir yn Llangrannog fis Ebrill.

Ymwelodd plant Dosbarth Blynyddoedd 1 a 2 a Chei Newydd yn ystod mis Chwefror i wneud astudiaeth maes Daearyddol o gymharu pentref glan môr efo pentref Cwmann.

Bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 hefyd yn ymwneud a gwaith maes daearyddol wrth ymweld a Llambod i gynnal arolwg traffig a pharcio yn y stryd Fawr.

#### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pin, Cwmann ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Ysgol Penweddig a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dyfarnwyd Tlws y Cerddor iddo (sef y wobwr am brif gyfansoddwr yr Eisteddfod ac hefyd Eurion a enillodd y wobwr am offerynnwr gorau'r Eisteddfod gan dderbyn Tlws Coffa Non Taylor. 'Roedd Eurion hefyd yn drydydd yng nghystadleuaeth y Goron.

Pob llwyddiant iddo yn yr holl gystadlaethau y bydd yn cystadlu arnynt yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd ar ddiwedd Mis Mai.

#### Pedair cenhedlaeth

Ganwyd Harri ap Arwel ar Dachwedd 29fed 2008 yn fab i Arwel a Rhian Davies, Cross Inn Morgannwg Ganol. Mae Harri yn or-wyr i Jack a Nellie Davies Heol Hathren Cwmann, ag yn wŷr i Roy a Glenys Davies Meisgyn Morgannwg Ganol, a Glyn a Jan Stephens Llanharan Morgannwg Ganol.

#### Anrhydeddu Iona Trevor Jones

Mae clwb Benllech a Gogledd Cymru o'r Cymdeithas Trefnu Blodau Genedlaethol (NAFAs) yn dathlu bywyd Iona Trevor Jones yn neuadd P.J. Prifysgol Cymru Bangor ar ddydd Iau Mehefin 11eg 2009 o 1.30-6 o'r gloch fel gwerthfawrogiad o'i chyfraniad amhrisiadwy yn y maes. Dyma fydd i'w weld yn ystod y prynhawn, Arddangosfa flodau gan yr enwog Barchedig William Macmillan (o Belfast), Keith Smithies (Bae Colwyn), Josephine Javes, Curigwen Davies a Margaret Thrower (merch Percy Thrower). Hefyd cyfle i weld tapestri yn cynnwys 1,530,000 o bwythau, o waith Iona sydd yn adlewyrchu ei bywyd o'i phlentyndod. Bydd Ar Lôg yn cynhyrchu ffilin o'r Croeshoeliad gyda chymorth Iona a Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch ymlaen llaw i'w ddangos ar y diwrnod arbennig hwn. Bydd hefyd atgofion personol gan ffrindiau Iona o'i gwaith a'i gallu unigryw i greu blodau a dillad o'r cyfnod 1959-1972. Bydd yna arddangosfa o wisgoedd a hetiau a wnaed gan Iona, a bydd yna groeso i'r merched wisgo het yn ystod y dydd. Os am docynnau i'r diwrnod unigryw ac arbennig yma, cysylltwch a Mrs Gail Shaw, 3 Marl Gardens, Dreganwy, Conwy LL319L2. Sicciau yn daliadwy i Colwyn Bay Floral Art Club (ITJ Fund). Pris y tocynnau fydd £10 a bydd elw'r diwrnod yn mynd tuag at Ymchwil Leukaemia a Cancr y Fron. Dyma cyfle unigryw i chi'r merched ymweld a thref Hanesyddol Bangor yng Ngwynedd er mwyn profi a blasu



gwaith 'Brenhines y Blodau' sydd fel y gwyddoch wedi ymgartrefu yn ein plith yng Nghwmann ers sawl blwyddyn bellach.

#### Enillwyr Clwb 225 Mis Mawrth

1. Graham Howell, Llambled, 2. Kevin Doyle, Cwmann, 3. Doreen Harries, Cwmann, 4. B Griffiths, Cwmann, 5. Eifion Davies, Cwmann, 6. Aled Williams, Cwmann, 7. Gwynfyl Griffiths, Cwmann, 8. Glesni Thomas, Cwmann, 9. Sheila Lewis, Cwmann, 10. Tommy Price, Cwmann.

#### Enillwyr Clwb 170 Mis Mawrth

1. Womens Workshop, Cwmann, 2. Amanda Evans, Llanllwni, 3. Mrs. Davies, Cwmbrwyn, Pencader, 4. Vaughn Abel, Cwmann, 5. Mary Jones, Llambled, 6. Ann Jones, Cwmann, 7. Eirian Jones, Llambled, 8. Dewi Davies, Tregaron, 9. Edwin Harries, Cwmann, 10. Les and Majorie, Cwmann.

#### Penblwydd Hapus

Penblwydd Hapus i Caryl Davies, Brynteg a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 21 ar ddydd Sul y Pasg, a phob lwc i ti yn Marathon Llundain.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Jeff Douch Glynceri a ddathlodd benblwydd arbennig dechrau Mawrth.

Cyfarchion hefyd i Llinos, Araul ar ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed yn ddiweddar.

#### Cydymdeimlo

Blin oedd clywed am farwolaeth Mrs James Islwyn (gynt) yn ysbty Glangwili. Estynnwn ein cydymdeimliad ar y teulu i gyd.

Estynnwn gydymdeimliad a Mr Aled Evans Cae Ram a Mrs Iona Roberts Parcyrrhos ar farwolaeth eu mamgu yn ddiweddar.

#### Ysbyty

Da deall fod Rhian Twynog Llisycoed ar wellhad ar ôl ei arhosiad byr yn yr ysbyty.

#### Diolch

Dymuna Mr Jeff Douch Glynceri ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion o bob math a dderbyniodd ar ei benblwydd arbennig.

#### 100 oed

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Evelyn Roberts 1 Abertrinant (gynt) ond nawr yn cartref Tremle Pencader, roedd yn dathlu ei chant oed ar Fawrth 26. Mae Mrs Roberts yn mwynhau iechyd eithriadol o dda ac yn dal i ddarllen Cambrian News gan cael hanes Cwmann yn wythnosol. Wel gobeithio i chi fwynhau cwmni perthnasau a ffrindiau ar ddiwrnod y dathlu.

#### Cylch Meithrin

Cynhelir Diwrnod Hwyl yng Nghanolfan Cwmann ar ddydd Sadwrn Gorfennaf 11ed 2009 i ddathlu 30 mlynedd y cylch Meithrin yn bodoli.

#### Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos

Ar nos Lun Mawrth 16eg daeth cyfarfodydd y gymdeithas i ben, heblaw am y wibdaith flynyddol a fydd yn digwydd yn ystod yr haf. O dan lywyddiaeth Dilwen Roderick rydym wedi cael tymor llwyddiannus iawn a diolch, wrth gwrs i bob un o'r siaradwyr. Roeddent, heb eithiad, yn raenus a diddorol iawn. Adlewyrchwyd hyn yn glir gyda'r nifer dda a ddaeth i bob cyfarfod. Cafwyd ein cinio ar y 16eg o Fis Chwefror yn y Coleg, ac ar ôl pryd bendigedig cawsom y pleser o wrando ar ein gŵr gwadd sef Tweli Griffiths y newyddiadurwr a'r darlledwr poblogaidd. Mae wedi gweithio ym myd y cyfryngau am dros ddeng mlynedd ar hugain a rhannodd â ni hanesion y gwledydd a chymeriadau diddorol a oedd wedi cael y fraint o'u clywed e.e Y Cymol Gadaffi. Disgrifiodd fel mae'r byd darlledu wedi newid. Flynyddoedd yn ôl roedd angen tîm o chwech neu saith i wneud rhaglen ond gyda thechnoleg newydd gellir cyflawni'r gawith gyda dim ond un person. Daeth a'i sgwrs i ben drwy ddangos i ni ei sgiliau fel consuriwr, ffordd arbennig o gloi anerchiad a adawodd gryn dipyn o argraff ar bob un a oedd yn bresennol. Talwyd diolch iddo am noson tu hwnt o bleserus a diddorol gan y Dr. David Thorne. Yn ein cyfarfod olaf am eleni ein gwraig wâdd oedd un o'n haelodau ni ein hunain sef Anne Thorne sydd hefyd yn un o ddiaconiaid y Capel ac yn un o'r rhai mwyaf gweithgar ym mhob agwedd o'r gwaith. Cafwyd ganddi hanes ardal ei mebyd sef ardal lofaol Cwm Nedd. Rhoddodd hanes ei theulu ond yn arbennig gan darluniodd gymeriadau'r fro. Fel athrawes, mae ganddi sgiliau cyfathrebu arbennig ac roedd pawb wedi mwynhau'r ffordd gartrefol a diddorol y bu'n sgwrsio â ni. Diolchwyd iddi yn gynnes iawn gan Cyril Davies. Mae'r gwaith o drefnu a pharatoi'r wibdaith yn mynd ymlaen yn barod. Y gobaith yw trefnu digwyddiad a fydd yn bleserus ac addysgiadol, fel sydd wedi bod ar hyd y blynyddoedd ac yna cael swper gyda'n gilydd i goroni gwaith y tymor.

#### Gyrfa Chwist- Cartref Hafan Deg, Llambled

Ar Nos Fercher y 18fed o Fis Mawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr oedd fel a ganlyn- Dynion, 1. Mrs Peggy Davies, Bro Henllys, Felinfach. 2. Mr Harry Williams, Ystrad Aeron. Cydradd 3ydd. Mrs Mary Davies a Mrs Gwendoline Jones. Merched, Cydradd 1, Mrs Nancy Davies a Mrs Catherine Morgans, 2. Mrs Gwenda Davies. Sgôr Isaf, Dynion, Mrs Mary Jones, Llambled. Merched, Mrs Annie Thomas, Llambled. Bwrw Allan, Enillwyr, Mr Harry Williams a Mrs Nancy Davies, Ail- Mr Ifan Jones a Mrs Ray Jenkins. Diolchodd y trefnydd Mrs Gwen Davies, Llanwnnen i bawb am eu cefnogaeth. Bydd y Gyrfa oedd Chwist Mis Ebrill ar Nos Fercher 15fed a 29ain..

## Llanwnnen



Mrs Gwen Davies, Llywydd Sefydliad y Merched, Llanwnnen yn cyflwyno gwobr, enillydd cystadlaethau'r flwyddyn 2008 i Miss Elsa Thomas.

#### Capel y Groes

Roedd y gwasanaeth a gynhaliwyd ar ddydd Gŵyl Ddewi yn un lliwgar ac yn un llawen iawn. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu gwisg traddodiadol Gymreig. Ar ddechrau'r oedfa cafwyd ganddynt fraslun o hanes Dewi Sant ac yna rhoddwyd sgwrs iddynt gan y gweinidog.

Yn dilyn hynny cafwyd dau gyflwyniad arbennig gan ddau o ieuenctid ardal Llanwnnen. Wythnos ynghynt yn Eisteddfod Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan gwnaeth Luned Mair ennill y goron am gyfansoddi cerdd Saesneg yn ogystal a'r gadair am gyfansoddi cerdd Gymraeg a daeth Aled Wyn Thomas yn ail yng nghystadlaethau y gadair. Braf oedd cael presenoldeb y ddau yn yr oedfa ac fe wnaethant ddarllen eu cerddi.

Wedi darlleniad pellach a sylwadau i'r oedolion gan y Parch Cen Llwyd yn seiliedig ar eiriau Dewi Sant ymunodd y gynulleidfa gyda phlant yr Ysgol Sul am baned a sgwrs. Mae hyn bellach yn arferiad misol yng Nghapel y Groes ac mae cyfle i bawb i gymdeithasu a mwynhau cwmniath eu gilydd. Yn y diwedd bydd yr holl arian a gesglir uwchben y paned a sgwrs misol yn cael eu cyflwyno i goffrau Cymorth Cristnogol.

#### Brenhines C Ff I Ceredigion

Yn ystod y mis cafodd Manon Haf Richards, Lowtre ac aelod o G.Ff.I. Llanwenog ei dewis yn Frenhines Clybiau Ffermwyr Ieuanc, Ceredigion am 2009-2010. Mae Manon wedi bod yn weithgar tu hwnt gyda'r Mudiad ar hyd y blynyddoedd – does neb mwy teilwng na hi, a hyfryd fydd ei gweld yn chael ei choroni yn Rali'r Sir ym Mydroilyn ar Ddydd Sadwrn cyntaf mis Mehefin eleni. Mae Manon yn cyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Tregaron a'r Ysgol Gyfun yn Llambled. Ymfalchiwn yn fawr iawn fel ardal yn ei llwyddiant.

#### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â

Hyw ag Eva Davies, Ornant yn eu profedigaeth lem o golli merch sef Sheila Davies, Llanybydder ac hefyd chwaer sef Mary Jones o Felinfach.

#### Penblwydd Arbennig

Gobeithio bod Catrin James, Castell Du wedi mwynhau'r dathliadau wrth iddi ddathlu penblwydd yn ddeugain yn ystod y mis.

#### Deunaw Oed

Yn ystod y mis fe fydd Luned Mair, Pen y Nant yn dathlu ei phenblwydd yn 18oed. Dymuniadau gorau i ti Luned i'r dyfodol.

#### Sefydliad y Merched

Bu aelodau'r mudiad yn dathlu Gŵyl Dewi yn ôl ei arfer gyda swper Cymreig. Yr Hedyn Mwstard oedd y lleoliad eleni a chafwyd gwledd o Gawl Cennin a phob math o danteithion blasus.

Llywyddwyd y noson gan Mrs Gwen Davies, a diolchodd i Mrs Liz Jones a'r staff am y swper arbennig, hefyd i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu'r noson. Enillwyd cystadlaethau y mis gan Mrs Mary Davies.

Eleni bydd Sefydliad y Merched Llanwnnen yn dathlu penblwydd Diemwnt ac mae paratodau ar y gweill am daith i'r Gerddi Botaneg a swper i ddathlu'r achlysur arbennig hwn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Grannell ar nos Lun, Ebrill 6ed gyda Mrs Yvonne Davies yn olrhain Hanes Llambled.

#### Clwb 100 y Clwb Ieuenctid

1. Rhif 44 - Roy Roach
2. Rhif 21 – Dai Thomas
3. Rhif 67 – Kevin Thomas
4. Rhif 28 – S. Allen

Rhifyn mis Mai  
Yn y Siopau  
**Mai 7fed**  
Erthyglau i law erbyn  
**Ebrill 23ain**  
Newyddion i law erbyn  
**Ebrill 27ain**



# Cadwyn Cyfrinachau



**Enw:** Annwen Jones  
**Oed:** 26  
**Pentref:** Llanfair Clydogau  
**Gwaith:** Rheolwraig Arlwyath  
**Partner:** Jonny Bell  
**Teulu:** Mam (Gwyneth), Dad (Billy)

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**  
Bwydo Jeremy'r Arth yn Nhŷ Gôf Llanfair.

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**  
Neighbours.

**Yr eiliad o'r embaras mwyaf.**  
Cwmpo lawr y grisiau pan oeddwn yn y coleg a thorri fy ngwefus.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**  
Dweud "diolch" bob tro.

**Y CD cyntaf a brynest di erioed?**  
Dim CD's pryd 'ny. Tâp Kylie Minogue.

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?**  
Person trin gwallt.

**Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?**  
Dim byd eto ond dal yn aros i Jonny i fynd lawr ar ei ben-glin!

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**  
Ar nos Wener yn ymlacio ar y sofffa yn gwyllo teledu ar ôl wythnos galed o waith.

**Beth yw dy lysenw?**  
Annz

**Pwy yw dy arwyr?**  
Fy nghyfnither Meinir.

**Y peth gorau am yr ardal hon?**  
Pawb yn barod i helpu pan fo eisiau.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**  
Dim River Island gerllaw.

**Pa mor wyrdd wyt ti?**  
Gwyrdd iawn. Dylanwad Jonny.



**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**  
Saesneg peth cynta yn y bore a Chymraeg pan af i'r gwaith.

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?**  
Pobl dau wynebog a rhai sydd yn dweud celwydd!!!

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**  
Cegin newydd yn lle'r un oren sydd gen i!!!

**Beth sy'n codi ofn arnat?**  
Uchder.

**Pryd llefaist ti ddiwethaf?**  
Sain llefen (fi'n galed).

**Am beth wyt ti'n breuddwydio?**  
Mod i'n mynd i fod yn fenyw fusnes lwyddiannus.

**Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?**  
Rebecca Miller fy nghyfnither. Gallai fod yn forwyn fach i fi!!!

**Unrhyw ofergoelion?**  
Cyfri piod a dweud "hello Mr Magpie, how are you today".

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?**  
Wii fit!!!

**Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?**  
Cael noswaith dda o gwsg bob tro!

**Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.**  
Pan brynodd Jonny Bell a fi dŷ!!!

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**  
Doniol, cariadus a phert!!!

**Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?**  
Off ei phen, cariadus a sensitif.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**  
Peugeot 206 efo seddau car buwch!!!

**Beth wyt ti'n hoffi darllen?**  
Hunangofiannau.

**Beth yw dy hoff arogl?**  
Prit Stick.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**  
River Island i weld beth yw'r ffasiwn ddiwedddara.

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?**  
225.

**Hoff gân ar dy ipod?**  
Eternal Flame Bangles.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**  
Mike Phillips.

**Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?**  
Slum Dog Millionaire.

**Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?**  
Bod yn deneuach

**Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?**  
Llygaid brown tywyll.

**Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?**  
Canu'r piano!!!

**Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?**  
Gweld ffrindiau a theulu yn gwneud yn dda o amgylch fi!!!

**Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?**  
Iechyd.

**Y gwyliau gorau?**  
Royal Welsh 1999.

**Arferion gwael?**  
Signo bys.

**Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?**  
Tynnu sbectol bant!!!

**Ble fyddi di mewn deng mlynedd?**  
Pwsho pram rownd Llambod (gobeithio).

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:  
**Dafydd Jones**, Llanfair Clydogau

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw \_\_\_\_\_  
Cyfeiriad \_\_\_\_\_  
Cod post \_\_\_\_\_  
Rhif Ffôn \_\_\_\_\_

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET  
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**  
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

1			7				2
				3		5	7
2		7	4		6	8	3
	8			6	2		5
	6	2	1		5		
9				4	7		
		6		2			9
				9	4		
8	3			4	2		

## Atebion Swdocw mis Mawrth

Llongyfarchiadau i:

**Lis Williams**, Bronallt, Llangadog a diolch i bawb arall am gystadlu: Euronwy Doughty, Highlands, Llanybydder, Geraint Hatcher, Cefnhafof, Gorsgoch, Heulwen Evans, Aberdaudwr, Maesycrugiau, Lynwen Davies, Glas-dir, Llanybydder, Glenys Davies, 7 Rhydybont, Llanybydder, Bethan Williams, 7 Heol-y-Gaer, Llanybydder, Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder, Jean Griffiths, Fronddu, Cwrtnewydd, Eurwyn Davies, 47 Heol-y-Gaer, Llanybydder. Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, Iona Warmington, Llandaf, Caerdydd.

2	7	6	9	5	1	3	8	4
4	8	5	2	3	7	1	9	6
1	9	3	6	4	8	7	2	5
3	2	9	8	7	6	5	4	1
6	5	1	4	2	3	8	7	9
8	4	7	1	9	5	6	3	2
5	3	4	7	1	9	2	6	8
9	1	8	3	6	2	4	5	7
7	6	2	5	8	4	9	1	3





Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch eleni. Dyma'r canlyniadau:-

**Unawd Merched Bl 7-9** Gwawr Hatcher (1af), Lowri Jones (2ail), Meleri Davies (3ydd) **Llefaru Unigol Bl 7-9** Lowri Jones (1af), Sioned Hatcher (2ail), Gwawr Hatcher (3ydd) **Alaw Werin Unigol B7-9** Lowri Jones (1af), Dewi Uridge (2ail), Gwawr Hatcher (3ydd) **Unawd Bechgyn Bl 7-9** Aron Dafydd (1af), Ianto Jones (2ail) **Llefaru Unigol Bl 10-13** Hedydd Davies (1af), Lowri Pugh Davies (2ail) **Unawd Cerdd Dant Bl 7-9** Lowri Jones (1af), Gwawr Hatcher (2ail) **Deuawd Bl 7-9** Gwawr Hatcher a Meleri Davies (1af) Sophie Jones a Lauren Jones (2ail) **Alaw Werin Bl 10-19oed** Elin Jones (1af), Hedydd Davies (2ail) **Unawd Telyn Bl 7-9** Lowri Jones (1af) Gwawr Hatcher (2ail) **Unawd Merched Bl 10-13** Elliw Dafydd (1af) **Unawd Bechgyn Bl 10-13** Aled Wyn Thomas (1af) **Unawd llinynnol Bl 7-9** Llion Thomas (1af) **Monolog Bl 10-19oed** Elliw Dafydd (1af) **Grŵp llefaru Bl 7-9 Parti Merched Bl 7-9 Parti Bechgyn Bl 7-9 Côr S.A. Bl 7-9 Côr Bechgyn T.B. Bl 13 ac iau Ensemble Lleisiol Bl 13 ac iau**

Bu Elinor Jones a Delor Evans o flwyddyn 8 a Megan Jenkins a Sioned Hatcher o flwyddyn 9 yn cystadlu yn rownd gyntaf cystadleuaeth yr Urdd 'Cogurdd'.



Ar Fawrth 18fed, aeth Sioned Hatcher ac Elinor Jones ymalen i gystadlu yn y rownd daleithiol ym Mhibwrlwyd, yng Nghaerfyrddin. Buont yn coginio pitsa tafelli'r haf a salad afal a datys o dan y thema 'prydau sydyn'. Da iawn ferched.

Yn ystod gwyliau'r hanner tymor, mynychodd y disgyblion canlynol gwrs preswyl yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog fel aelodau o Fand Chwith Hŷn y Sir a'r Gerddorfa Llinynnol Hŷn:-

Caroline Roberts, Bl 12 Ffliwt Gareth Davies, Bl 10 Sacsoffôn a Fiona Messer, Bl 10 Ffidil

Yn dilyn y cwrs, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth ar Chwefror 24ain. Perfformiwyd teyrnged i Charles Strauss ac roedd arwyddgan Wallace and Gromit hefyd yn llwyddiant ysgubol.

Gorffennwyd y gwaith adeiladu ar y bloc newydd yn ardal y berllan ym mis Chwefror. Darparwyd ystafelloedd dysgu, ystafell gyfrifiadurol, ystafell y Chweched a swyddfeydd newydd. Symudodd yr Adran Saesneg, y Chweched ynghyd â Mr Michael Morris a Mrs Kay Morris i'w cartrefi newydd ac maent yn mwynhau'r adnoddau arbennig yn yr adeilad hyfryd.

Cynhaliwyd bore coffi ar Ddydd Gwener, Mawrth 6ed er mwyn codi arian at Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru. Mae'r elusen yn darparu therapi arbenigol i blant yng Nghymru sydd â pharlys yr ymenydd. Bu aelodau 8 Pedr yn brysur yn ystod y bore yn paratoi'r neuadd, yn gweini ac yn gwerthu cacennau a diodydd. Cafwyd raffl ac arwerthiant cacennau ac fe lwyddodd yr ysgol i godi cyfanswm o £400. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at yr achos.



Gwisgodd y Chweched dosbarth (a rhai aelodau staff)

hetiau doniol a theis er mwyn codi arian at Comic Relief. Bu'r bechgyn hefyd yn chwarae hoci yn erbyn y merched yn ystod yr awr ginio, a'r sgôr terfynol oedd 2-1 i'r bechgyn! Codwyd £250 at Comic Relief. Da iawn.

Llongyfarchiadau i Llŷr Jones, sydd wedi dathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar. Mae Llŷr yn cefnogi'r Sgarlets ac fe dderbyniodd fricsen ar gyfer 'Wal y Sgarlets' yn anrheg penblwydd gan ei ffrindiau yng nghanolfan y Bont.

Enillwyd y wobwr gyntaf yn y categori 'mynegwch eich hun mewn steil graffiti' mewn cystadleuaeth gelf i ysgolion. Y disgyblion canlynol fu'n llwyddiannus :-

Dylan Jenlins, Hoby Lewis, Zac Griffiths, Catrin King, Trevor Rowlands, Llŷr Jones, Bethan Lewis, Thomas Harding a Charlotte Anthony.

Llongyfarchiadau i Eleri Hughes a'i phartner, Gavin, ar enedigaeth ei mab, Cai Jon.

Llongyfarchiadau i Stephanie Jones o flwyddyn 9 ar ei llwyddiant mewn cystadleuaeth gelf i ysgolion. Enillodd y wobwr gyntaf yn y categori 'patrymau a lliwiau yn y tirlun Cymreig'.

Bu'r disgyblion canlynol yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth gelf genedlaethol 'mynegwch eich hun' :-

Rowan Thomas, Kelsey Swan, Lisa McCambridge, Hazel Gale, Lucy Arthur a Rhian Jones.

Trefnwyd y gystadleuaeth gan 'School Artists Publications' ac fe fydd eu gwaith yn cael ei gyhoeddi mewn llyfr.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol wnaeth hefyd gystadlu:-

Bethany Skinner, Lamorna Morgan, Chloe Roper, Layton Edgell, Oliver Payne, Jack Rowbotham, Ben Hyde, Keanu Ryver Lye, Yvonne Hughes ac Annalise Jeanette.

Cafodd deg disgybl o flwyddyn 7-9 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy graffiti yn ddiweddar gyda Lloyd Roberts, sy'n arlunydd graffiti o Gaerdydd.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol sydd wedi ennill gwobrau yn ddiweddar yn yr 'UK Intermediate Maths Challenge'

Aur Llŷr Davies Bl 11

Arian Ben Lake Bl 11, Daniel Hurton Bl 11, Zola Kopacci Bl 11, Thomas Merrowsmith Bl 11, Daniel Edwardes, Bl 10

Efydd Craig Richards Bl 11, Jasmine Kime Bl 11, Terry Gardner Bl 10

Fel rhan o ddathliadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a drefnwyd gan Athrofa Conffiwsws ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan, cafodd 7N wahoddiad i ymuno yn yr hwyl. Dechreuwyd y dathliadau gyda pherfformiad o'r Ddawns Llewod lliwgar gan y Gymdeithas Tsieineaidd ac yn dilyn hyn bu yna ganu a rhagor o ddawnsio Tsieineaidd. Cafodd y disgyblion hefyd gyfle yn ystod y dydd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai yn cynnwys caligraffi, dawnsio traddodiadol a Tai Chi. I orffen y dathliadau bu yna gyfle i flasw bwyd Tsieineaidd.

Llongyfarchiadau i Carwyn Williams a Kane Farnell o flwyddyn 11 sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth deilio yn ddiweddar a drefnwyd gan y Colegau Addysg Bellach a'r Bwrdd Adeiladu. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yng Ngholeg Addysg Bellach Rhydaman ac yr oedd pedair ar hugain o ysgolion yn cystadlu. Daeth y bechgyn yn bumed yn y gystadleuaeth gyda chlôd uchel am eu gwaith. Mae Carwyn a Kane yn astudio Adeiladwaith yn yr ysgol o dan hyfforddiant Mr Chris Frost. Da iawn fechgyn.

## Gwmsychpant

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Brian a Mair Potter, Rhoslynwyr ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf, pan anwyd Madi, merch fach i Osian a Nia yng Nghribyn. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Llongyfarchiadau hefyd i Einir Ryder, Tyngrug-ganol ar gael ei dewis yn forwyn i frenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn 2009 – 2010. Ymfalchiwn yn dy lwyddiant. Llongyfarchiadau iddi hefyd, ynghyd â Teleri Morris o Glwb Pontsian ar rannu gwobr yr

actores orau yn Panto C.Ff.I. Cymru.

### Dathlu Penblwydd arbennig

Dathlodd Wyn Davies, Tyngrug Uchaf ei benblwydd yn 50 oed yn ystod y mis. Gobeithio Wyn i ti gael diwrnod i'w gofio.

### Bedydd

Ar ddydd Sul olaf mis Mawrth bedyddiwyd Elis Gwion, mab bach Eleri ag Elfed Jenkins, Bryngolau, Alltlyblaca yng Nghapel y Cwm gan y Parch Wyn Thomas gyda Nanna Ryder wrth yr organ.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

# Cwrtnewydd



Aaron Hunter Cwrtnewydd yn trosglwyddo £70 i Ann Edwards, Ambiwylans Awyr Cymru. Codwyd yr arian drwy werthu amryw o gardiau ei fam-gu Claudette Jones sydd hefyd yn y llun.

## Dyweddio

Llongyfarchiadau mawr i Carys Griffiths, Fronddu â Kevin Jones, Glanperis, Llanrhystd ar eu dyweddian yn ddiweddar. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd yn Aberaeron.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Nel Price, a'r teulu, Castle Green o golli ei chwaer Mrs Dilwen Thomas a oedd yn byw yn Llanbadarn, ger Aberystwyth. Bu'

## Priodas Cwmffradach

Cafwyd tipyn o hwyl yn Neuadd Ysgol Gynradd Cwrtnewydd yn ystod y mis pan gwelwyd perfformiad o Briodas Cwmffradach gan Gwmni Troed y Rhiw. Diolch i bawb a gefnogodd – noson arbennig iawn o chwerthin!!!!

## Gwellad Buan

Meddyliwn am Mrs Getta Evans, Melrose sydd heb fod yn teimlo'n arbennig yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau i chwi am well iechyd i'r dyfodol.

## Priodas Dda

Ar ddydd Saadwrn cyntaf Ebrill bydd Eilir Williams, Clyncloch yn priodi gyda Catrin Richards yng Nghapel Seion, Llandysul. Danfonwn ein dymuniadau gorau i'r ddau ar achlysur hapus eu priodas.

## Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Mae wedi bod yn fis prysur iawn i blant Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd. Ar 28ain o Chwefror aethom am dro i fferm Blaenhirbant Uchaf (cartref Luned) drwy caredigrwydd Dewi a Sian Jones. Gan ei fod yn dymor wyna, braf oedd gweld y defaid a'r wyn a'r holl anifeiliad eraill. Cafwyd cyfle i ddal oen bach a hefyd gweld un yn cael ei geni. Ar ôl cyrraedd nôl i'r Neuadd yr Ysgol a phawb bron â llwgi ar ôl bod allan yn yr awyr iach, mwynheuwyd pancws gan fod yn Ddydd Mawrth Ynyd.

Ar 3ydd o Fawrth dathlu Dydd Gwyl Dewi oedd thema'r prynhawn. Gwisgodd pob plentyn o'r babi lleiaf i'r plentyn hynaf i fyny yn eu gwisg Cymreig a phob un yn edrych yn ddeniadol iawn. Mwynheuwyd pice bach a baratowyd i'r plant gan Mamgu Elan, Elis a Megan a chyn terfynu i fynd adref lliwiodd y plant llun Cenin Pedr i gofio'r prynhawn arbennig hon.

Ar 10fed o Fawrth ymwelodd Kate Aimes, Therapi Iaith a Lleferydd Ceredigion gyda'r Cylch a gan fod y tywydd yn braf manteisiwyd ar y cyfle i chwarae tu allan am weddill y prynhawn.

Ar 17fed o Fawrth gwnaeth y plant gwaithgareddau ar gyfer Sul y Mamau gyda phob plentyn yn mynd adref a rhywbeth bach spesial i mam.

Os oes diddordeb gan unrhywun i ymuno mae Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn cyfarfod bob Dydd Mawrth rhwng 1.15 – 3.30yp yn Neuadd Ysgol Gynradd Cwrtnewydd ac os am ragor o fanylion cysylltwch gyda'r Ysgol ar 01570 434273.

## Ysgol Cwrtnewydd

Mis prysur dros ben ond llwyddianus iawn i blant Ysgol Cwrtnewydd. Dechreuwyd y mis drwy dathlu Dydd Gwyl Dewi. Braf oedd gweld pob plentyn wedi gwisgo yn Gymreigedd. Roedd y plant wedi bod yn brysur yn ysgrifennu a thynnu lluniau ar gyfer cystadleuthau. Dyma'r rhai a ddaeth i'r brig:-

Lliwio Llun Bl. Derbyn  
1af - Nia Morgan, 2il - Lleucu Rees, 3ydd - Lois Jones  
Lliwio Llun Bl. 1 a 2  
1af - Elin Davis, 2il - Owen Schröder, 3ydd - Madeleine Smith  
Tynnu Llun Bl. 3 a 4  
1af - Cerys Pollock, 2il - Aaron Gibbons, 3ydd - Haylie Cook  
Tynnu Llun Bl. 5 a 6  
1af - Stephen Hyde, 2il - Meinir Davies, 3ydd - Arwel Jones  
Llawysgrifen Bl. 1 a 2  
1af - Owen Schröder, 2il - Owain

Jones, 3ydd - Hanna Davies  
Llawysgrifen Bl. 3 a 4  
1af - Cerys Pollock, 2ail - Alpha Jones, 3ydd - Briallt Williams  
Llawysgrifen Bl. 5 a 6  
1af - Meinir Davies, 2ail - Iwan Evans, 3ydd - Edward Furlong  
Cymwynaswyr y flwyddyn  
Meinir Davies a Rhodri Hatcher  
Cafodd plant blwyddyn 6 gyfle i fynd i Ysgol Uwchradd Llanbed am sesiwn o Wyddoniaeth yn nwylo medrus Miss Mattie Evans. Cynllun i baratoi'r plant yn barod ar gyfer eu trosglwyddo ym mis Medi.

Cafodd holl blant yr ysgol gyfle i gystadlu mewn cystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghwersyll yr Urdd yn Llangrannog. Dyma'r canlyniadau:-

Gwaith Creadigol Grŵp 3D  
Cywaith Bl. 2 ac iau - 2il Catrin Schröder, Hanna Davies, Lleucu Rees a Nia Morgans, 3ydd – Zachary Wroe, Lois Jones, Caitlin Gibbons a Carwyn Davies, Luned Jones – 3ydd Pyped Bl. 5 a 6 - Grŵp o Bypedau Bl. 3 a 4 - 3ydd Briallt Williams, Aaron Gibbons a Cerys Pollock, Meinir Davies – 3ydd Print Du a Gwyn Bl. 5 a 6

Daeth trigolion Cymdeithas Hŷn Plwyf Llanwenog i'r ysgol a bu'r plant yn eu diddanu gyda eitemau am Ddydd Gwyl Dewi a rhai eitemau'r Eisteddfod.

Treuliodd plant y babanod fore ym Mhentre Bach i ddathlu Diwrnod y Llyfr ac i ddathlu bywyd T. Llew Jones. Gwisgodd y plant i fyny fel cymeriadau allan o storïau T Llew Jones. Gweler y plant yn mwynhau yn ystod y dydd ar wefan www.itvlocal.com.

Cafwyd diwrnod llwyddianus iawn eleni yn yr Eisteddfod Gylch. Da iawn i bawb wnaeth cystadlu. Dyma'r canlyniadau:

Elin Davies – 1af Unawd Bl. 2 ac iau, 1af Llefaru Bl. 2 ac iau, 1af Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau.

Alpha Jones – 3ydd Unawd Piano Bl. 6 ac iau.

Rhys Davies – 2il Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6 a 2il Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl. 6 ac iau.

Meinir Davies - 1af Unawd Piano Bl. 6 ac iau, 3ydd Unawd Bl. 5 a 6, 3ydd Llefaru Unigol Bl. 5 a 6.

Luned Jones – 3ydd Dawns Disgo Unigol Bl. 6 ac iau

Ymgom – 1af  
Parti Llefaru – 1af  
Parti Unsain – 1af  
Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 6 ac iau – 2il

Pob lwc i Meinir, Elin ac i blant yr ymgom. Parti Llefaru a Pharti Unsain yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar Fawrth yr 28ain ym Mhontrhydfendigaid. Hefyd, edrychwn ymlaen i'w clywed yn perfformio yn yr ysgol ar nos Iau, Ebrill 2il ym Mhigion yr Wyl.

Bu'r plant dosbarth top yn cystadlu yn Nhrawsgwlad yr Urdd yn Llambled ar Fawrth 13eg. Gwnaeth nifer ohonynt yn dda iawn gan fynd trwyddo i'r cam nesaf. Da

iawn i bob un am ymdrech.

## Dymuniadau Gorau

Dymunir pob lwc i Miss. Siân Jenkins, merch Mr. Tydfor Jenkins, 1 Heol y Bryn, ar gychwyn ei gyrfa gyda'r Llynges Brydeinig yn ystod mis Ebrill.

Mae'n dipyn o anrhydedd iddi gael ei derbyn, gan fod cystadleuaeth gref am swyddi o fewn y Llynges. Dilyn ôl traed ei thad wna Siân, gan iddo yntau dreulio rhai blynyddoedd ar y môr, teithio'r byd a gwynebu erchyllterau Rhyfel Ynysoedd y 'Falklands'. Mae ymuno â'r Llynges Brydeinig yn gwireddu breuddwyd Siân ers rhai blynyddoedd, a dymuna pawb sydd yn ei hadnabod bob hwyl a llwyddiant iddi yn ystod ei gyrfa.

# Cellan

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Rhiannon ac Aled Thomas, Bro Meillion ar enedigaeth eu merch fach Lois Alaw, chwaer i Iestyn.

## Twmpath

Cynhelir noson o Dwmpath ar y 3ydd o Ebrill yn Neuadd y Mileniwm. Dewch yn llw i gefnogi apêl yr Urdd 2010.

## Diolch

Dymuna Delyth, Dafydd a theulu y diweddar Dinnie Rees, Ffosyffin ddolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth, bu o gysur mawr iddynt.

## Croeso

Croeso mawr i Debbie, Nigel a'r teulu i Lwyndewi, gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y pentref.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Maggie Hughes, Nythfa ar ddod yn famgu unwaith eto i Lois, merch Nigel a Debbie.

## Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Avril Evans, Bro Meillion ar ei llawdriniaeth ar ei phenglin.

Gwellhad buan hefyd i Rhodri Daniel, Llysbarcud wedi ei ddamwain diweddar. Gobeithio y byddi'n gwella'n glori.

# Clwb Clonc

## Ebrill 2009

**£25 rhif 220:**  
Meurig Jacob, Gorwel, Llanybydder  
**£20 rhif 56:**  
Mrs Gwen Davies, Llysaeron, Llanwnnen  
**£15 rhif 400:**  
Manon Haf Richards, Lowtre, Llanwnnen  
**£10 rhif 216:**  
Luned Mair, Pen y Nant, Llanwnnen  
**£10 rhif 9:**  
Mrs Myfanwy Bryce, 20 Penbryn, Llambled  
**£10 rhif 6:**  
Rhian Bellamy, Hendy, Llanybydder



# Llanybydder

## Clwb Hoci Llanybydder yn dathlu 35 mlynedd

Eleni, mae Clwb Hoci Llanybydder yn dathlu 35 mlynedd. Cychwynwyd y clwb gan Susan Lewis ac Eleri Jones nol yn y 70au cynnar. Ar yr adeg honno dim ond Clwb Hoci Llanybydder a Chlwb Hoci Tregaron oedd mewn bodolaeth yn y Sir. Mae'n dda i ddweud fod Clwb Hoci Llanybydder dal yn mynd gryf gyda sgwad fawr yn ymarfer ac yn chwarae'n wythnosol. Mae nifer fawr wedi chwarae dros y tim dros y 35 mlynedd diwethaf ac mae'n braf dweud fod gan lawer ohonynt gysylltiad agos o hyd gyda'r clwb. Mae nifer dros y blynyddoedd wedi chwarae, hyfforddi a dyfarnu ac un sydd wedi gwneud yr rhain i gyd a sydd wedi bod gyda'r clwb ers bron y cychwyn a sydd dal wrthi yw Mair Wilson. Rydym yn hynod ddiochlgar iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd.

Rydym ar hyn o bryd yn drydydd yng Nghyngair Hoci Dyffryn Teifi. Rydym wedi chwarae 9 gêm – ennill 6, colli 2 a chyfartal 1. Mae'r clwb yn gwneud yn arbennig o dda o dan arweinyddiaeth ein capten am yr ail dymor yn olynol sef Carys Wilkins. Mae yna sawl gêm glos wedi bod a chwarae hoci dawnus sydd yn dangos fod Clwb Hoci Llanybydder yn dal yn dîm i'w churo. Ein sgorwraig uchaf ar hyn o bryd yw Angharad Morgan-Jones ac fe gafodd Angharad y sgorwraig uchaf yn y gynghrair y llynedd. Ceir perfformiadau clodwiw a dibynadwy ar bob achlysur gan Sioned Williams, Laura Davies, Nia Wyn, Rhian Thomas, Heledd Wilson a Carys Wilkins a nifer ohonynt wedi bod ynghlwm â'r clwb ers dros 10 mlynedd. Calonnogol yw gweld chwaraewyr newydd yn ymuno â'r clwb bob blwyddyn ac rydym bob amser yn falch i weld merched ifanc yn rhoi cynnig arni. Edrychwn ymlaen yn awr i'r ddwy gêm sydd ar ôl gan obeithio aros yn y tri uchaf yn y gynghrair.

I ddathlu ein 35 mlynedd rydym yn trefnu Cinio yng Nglwb Rygbi Llanybydder ar nos Wener Ebrill 24ain i ddechrau am 7.30yh. Pris tocyn yw £25 y pen ac mae hyn yn cynnwys pryd 3 chwr, gwin a disgo. Gobeithiwn yn fawr i weld nifer o gyn-chwaraewyr, ffrindiau a chwaraewyr presennol y clwb yno. Bydd yn noson i'w chofio ac yn aduniad yng ngwir steil Clwb Hoci Llanybydder! Am docynnau cysylltwch â Heledd Wilson ar 07969 124 056.

## Gyrfa Chwist y tair Elusen

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist y tair Elusen nos Fercher 11 Mawrth yn Llanybydder. 'Roedd yna 18 bwrdd a hanner. Noddwr y noson oedd Mr Ainsley Harris, Clothing Factors,

Penrhiwllan, Llandysul. Rhoddodd £50-00 at y gwobrau. Codwyd y swm o £660.00 ar y noson. Enillwyd y gwobrau gan y canlynol:

Gwobr rhif carden - Lil Thomas, Ffostrasol. Menywod: 1af Evan Jones, Aberarth, Mary Davies, Cwmsychbant. Dynion: 1af Betty Davies, Llanybydder, Gwenda Davies, Felinfach, Dilwen Roderick, Llambled, 2ail Bowen Jones

Cafwyd y gwobrau bwbi i'w hennill gan: Karine Evans, Pennant a Magw Evans, Cafwyd y rafflau i'w hennill gan: Lilian, 422 641, Ann Roberts, Cwmann; Adrian Thomas, Llambled; Sarah Humphreys Jones, Alltyblaca; Sue, 01905 25 127 Dolfedw, Llanybydder a Eiry Jones, Eirlyn. 'Roedd yna 12 gwobr raffl arall ar y noson. Talwyd y diolchiadau gan MrAneurin Jones, Cadeirydd, BHF. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Jack Jenkins am ei waith caled dros y blynyddoedd at y dair elusen hon.

## Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Daeth y chwiorydd ynghyd yn y Ffestri prynhawn Dydd Llun Chwefror 23ain. Croesawodd ein gweinidog Jill Thomas ein gŵr gwadd sef Dewi Davies Coedyglyn gyda'i wraig Bet yn bresennol. Bu Dewi yn dangos hen luniau o Lanybydder a lluniau o amgylch Cymru. Treuliodd y chwiorydd brynhawn diddorol dros ben yn eu plith. Cyn troi am adref cafwyd paned o de a chacennau a baratowyd gan Hannilia Court a 'r chwiorydd.

Cynhaliwyd Arwerthiant flynyddol Cymdeithas y chwiorydd yn festri Aberduar, nos Fercher Mawrth 18fed 2009. Llywyddwyd y gweithgareddau yn ddeheuig fel arfer gan y Parchedig Jill Tomos. Croesawyd pawb yn gynnes ac yn arbennig iawn i Marc Griffiths, Nant y caws (Tower Cottage gynt) a wahoddwyd i agor y noson yn swyddogol. Un o blant Ysgol Sul Aberduar yw Marc sydd bellach yn lais cyfarwydd a phoblogaidd ar y radio. Yn ei anerchiad diddorol mynegodd ei ddyled a'i atgofion melys o'i gyfnod yn yr Ysgol Sul ac fel un o blant y pentref. Gwerthfawrogi ei rodd hael i goffrau'r Gymdeithas. Bu'n noson

hwylus a chartrefol a dymuniad y chwiorydd yw diolch am bob rhodd a chyfraniad ac i bawb am eu cydweithrediad i sicrhau llwyddiant yr arwerthiant. Gwnaethpwyd elw o dros £1300.

## Diolch

Dymuna Kay Davies a'r teulu ddiolch yn ddi-ffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth lem o golli merch, mam a mamgu mor annwyl – Sheila Davies. Diolch i bawb a alwodd, y galwadau ffôn, y llu cardiau, blodau a'r bwydydd o bob math. Hefyd diolch i bawb a fuodd yn eu cynorthwyo ymhob ffordd. Diolch o galon i aelodau a ffrindiau Eglwys Sant Pedr, Llanybydder am drefnu, coginio a gweinir tē a'r bwyd wedi'r angladd yng Ngwesty'r Llew Du. Cydnabyddwn gyda diolch y rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at Meddygfa Brynmeddyg, Llanybydder. Gwerthfawrogi pob gair a gweithred yn fawr iawn.

# Ffarmers

## Cyfarchion

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Alan Edwards, Dolaucanol yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty wedi ei law-feddygol.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Eleri Davies, Troed y bryn ar ei llwyddiant yn ennill gradd M.Sc mewn cynllunio. Mae Eleri wedi bod yn dilyn cwrs gradd ym Mhrifysgol Caerdydd ers rhyw dair mlynedd tra hefyd yn gweithio yn Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Neuadd Bro Fana

Cafwyd Swper Cawl hyfryd i ddathlu Gwyl Ddewi yn y Neuadd ar y 7fed o Fawrth gyda Chôr Lleisiau'r Llan o Lanelli. Ar y 18fed o Ebrill, bydd Cwmni Drama Cudyll Coch, Llandeilo yn ymuno a ni unwaith eto i berfformio dwy gomedi – 'Lolipop a Jeli Coch' gan John O Evans, a 'Dirgelwch yr Awr Ginio' gan Sioned Huws.. Y Llywydd eleni fydd Mrs Rona Morgan, Cadfan, Derwen Fawr. Mae tocynnau ar gael oddiwrth aelodau'r Pwyllgor, neu wrth y drws ar y noson.



**Rhydybont** – Aelodau Cymdeithas Capel Rhydybont yn dathlu Gwyl Ddewi gyda'u gŵr gwadd, Mr Eifion Davies yng Ngwesty Cefn Hafod Gorsgoch. Mwynhawyd y bwyd a'r croeso ac hiwmor iach ein siaradwr gwadd.

## Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,  
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

## Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled  
Ffon: 423300 Ffacs: 423223  
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob  
gwasanaeth cyfreithiol  
*Apwyntiadau hwyr neu  
yn eich cartref*

# W.D. Lewis a'l Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,  
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a rwyddau  
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

# WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.  
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob  
gwasanaeth cyfreithiol.  
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

## 1 Sgwâr Harford, Llambled

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,  
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

## CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar  
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion  
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher

01570 481230 / 07967 559683

# Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Enwau rhai afonydd a nentydd (1)

Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi gallu rhoi sylw o bryd i'w gilydd i enw ambell afon a nant. Y tro hwn a'r tro nesaf byddwn yn ystyried yn bennaf enwau'r afonydd a'r nentydd hynny sy'n dyfrïo'r ardal hon.

Y farn gyffredin yw mai enwau afonydd a nentydd yw'r enwau hynaf sydd wedi'u cadw. Roedden nhw'n cael eu hystyried yn bwysig gan ein cyndadau wrth ddynodi ffiniau tiroedd. Ond gwyddom hefyd i lawer o hen enwau ar afonydd a nentydd golli dros y canrifoedd a dechreuwyd, fel y cawn weld, alw llawer ohonyn nhw wrth enwau newydd.

Cyflymmodd y duedd hon yn ystod cyfnod y Tuduriaid oherwydd nid oedd angen, bellach, roi'r un sylw â chynt i ffiniau tiroedd eglwysig a lleyg. Cafodd y mynachlogydd eu diddymu a rhannwyd eu tiroedd yn ystadau rhwng cefnogwyr Harri'r VIII. Ac at hynny hefyd roedd yr hen drefn Gymreig o rannu'r dreftadaeth wedi dod i ben i bob pwrpas. Achos arall am ddiflaniad llawer o enwau, oedd y Farwolaeth Fawr; amcangyfrifir i chwarter poblogaeth Cymru farw oherwydd y Farwolaeth Fawr rhwng 1349 a 1350 ac aeth corff sylweddol o enwau lleoedd ac afonydd i'w dilyn. Collwyd enwau eraill gyda'r ymfudo cyson a fu o'r ardaloedd gwledig i ardaloedd diwydiannol.

Dyna'r cefndir yn gryno i drafodaethau'r misoedd nesaf.

**Afon Teifi** - Lle a gaiff ei ddyfrhau'n dda ac yn gyson iawn yw Dyffryn Teifi: mae Afon Teifi yn codi yn Llyn Teifi, i'r dwyrain o Ystrad Fflur, ac yn llifo i'r mor yn Aberteifi. Mae'r afon ryw 75 milltir hyd ac yn gyson ddynodi'r ffin rhwng Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro. Mae'r enw Teifi'n cael ei chofnodi am y waith gyntaf gan Ptolemy, Groegwr o ddaearyddwr a oedd yn gweithio yn Alecsandria yn yr Aifft c.150. Yn anffodus ychydig iawn y gellir ei ddweud yn bendant o ran dehonglu enw'r afon ond mae'n bosibl bod modd cysylltu Teifi â gwreiddyn Brythonig sy'n dynodi 'lifo'. Os yw'r dyfaliad yn ddiogel, rhaid cysylltu'r enw Teifi ag enwau megis Tâf a Thawe ac â Team, Tame, Tamar, a Thames y tu allan i Gymru.

**Hafren** - Enw llawn mor urddasol â Theifi yw Hafren. Mae'r enw'n digwydd yn Llanllawddog lle mae cwter gwsg o nant fechan o'r enw Hafren yn llifo i afon Gwili. Ond Afon Hafren arall a honno'n tarddu ym Mlaen Hafren ar Bumlumon sydd fwyaf cyfarwydd i'r rhan fwyaf ohonom ni; wedi dilyn llwybr troellog am ryw 220 o filltiroedd mae honno'n arllwys i'r môr ger Caerloyw. Mae'r enw Hafren yn cael ei grybwyll am y tro cyntaf yn yr ail ganrif gan Tacitus – un o haneswyr pwysicaf yr Hen Fyd. Y ffurf ar yr enw y mae ef yn ei defnyddio yw Sabrina a Chymreigiad ar Sabrina yw Hafren.

Yn ôl traddodiad roedd yna dywysoges o'r enw Sabrina a'r hanes yw iddi gael ei boddi yn Afon Hafren ac i'r afon gael ei henwi ar ei hôl hi. Ond os oes modd rhoi unrhyw fath o goel o gwbl ar y stori, mae'n debyg mai fel arall y buodd pethau ac i'r dywysoges gael ei henwi ar ôl yr afon. Ac mae enw'r afon hon eto yn cyfleu'r cysyniad o 'lifo'.

Yn anffodus, does dim modd cysylltu'r dywysoges Sabrina na Tacitus â'r Hafren sy'n tarddu yn Llanllawddog nac â'r llu o fân nentydd eraill trwy Gymru sydd hefyd yn dwyn yr enw Hafren. Rhyw ddychan neu ddigrifwch neu ironi, mae'n siwr, welwn ni yn Llanllawddog wrth alw un o ragnentydd lleiaf Afon Gwili ar ôl un o brif afonydd Ewrop.

**Gwili** - Mae amryw afonydd a nentydd o'r enw Gwili yn yr ardal hon. Mae Gwili â Hafren yn ragnant iddi yn codi ym Mlaen Gwili rhwng Llanllawddog a Brechfa ac yn llifo trwy Gwm Gwili heibio i Lanpumsaint a Bronwydd i ymuno â Thywi yn Abergwili.

Ceir Nant Gwili Foel yn llifo i Afon Twrch ger Llan-y-crwys.

Mae Gwili Fach yn codi ar y Mynydd Mawr ger Cross Hands ac yn llifo trwy Gwm Gwili i ymyno ag Afon Llwhchr ger yr Hendy.

Yng Ngheredigion mae Afon Gwili yn codi i'r dwyrain o Ddihegydd ac yn llifo trwy Llanfihangel Ystrad i ymuno ag Afon Aeron ger Brynog.

O ran ystyr mae'n bosibl bod Gwili i'w gysylltu â gwyl 'caredig, mwyn, llawen'.

Y tro nesaf byddwn yn ystyried Cothi, Tyweli, Ig a Dulais.



**GLYN PHILLIPS**  
Saer Coed ac Asiedydd



Ffôn: 01570 470176  
Symudol: 07775 694243

**FISHERS**

**ARMS**



Bwyd cartref ardderchog nos lau, Gwener a Sadwrn.  
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig  
gan Berian a Beverley Wilkins a'u merchod.

**Cellan, Llambod**  
01570 422895

**T. Emyr Jones**  
**Adeiladwr**



**Araul, Cwmann**  
☎ 01570 423921  
☎ 07867 945174

**CANOLFAN ADDURNO**  
**AA**  
**A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.  
3 Stryd y Bont  
Llanbedr Pont Steffan  
01570 423156

**Cludfwyd Indiaidd**  
**NEHAR**  
newydd agor yn Llambod



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.  
15% o ostyngiad  
ar archebion dros £10.00.  
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambod  
☎ 01570 422893 / 422175

## Llanllwni

### Ysgol Llanllwni

Treuliodd Mrs. Nans Davies bythefnos yn Ffrainc gyda athrawon eraill o Gymru a Lloegr. Buont yn ymweld ag ysgolion a mynychu darlithoedd.

Cafwyd ein eisteddfod ar brynghawn Gwener, Chwefror 27ain pan fu timoedd Hendre, Talog a Teifi yn cystadlu mewn cystadlaethau canu, llefaru, dweud jocs, sgets, offerynnau cerdd, dawnsio, tynnu lluniau a llawysgrifen. Tim Talog oedd yn fuddugol. Daeth nifer o rieni a ffrindiau i wylïo'r cystadlu. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth. Diolch arbennig i Mrs. Elonwy Davies o Lanybydder am feirniadu'r cyfan. Galwodd Mr. Tim Jones yn y bore i dynnu llun o'r plant yn eu gwisgoedd Cymreig.

Daeth P.C. Ernest Gronw i siarad a'r plant hyn am waith yr heddlu.

Aeth plant Blwyddyn 2 ac 1 i weld perfformiad gan theatr Arad Goch yn Ysgol Cae'r Felin. Diolch

i'r ysgol am y croeso. Bu rhai o aelodau o'r Urdd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch yn Llanbedd ddydd Mercher, Mawrth 11ed. Da iawn bawb a fu yn y rhagbrofion yn y bore. Llongyfarchiadau i Betsan Jones am ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth llefaru Blwyddyn 5 a 6. Llongyfarchiadau hefyd i Jasmine Davies am gael trydydd am yr Unawd Blwyddyn 3 a 4. Daeth y parti disgo a'r parti canu yn drydydd.

Aeth plant yr Adran Iau i drawsgwlad Cylch Llanbedd brynghawn Gwener Mawrth 13. Bydd rhai yn mynd ymlaen i drawsgwlad y Sir. Daeth ffotograffydd i'r ysgol dydd Llun Mawrth 16eg i dynnu lluniau o'r plant.

Cerddodd yr Adran Iau o gwmpas y pentref ar brynghawn braf gan arsylwi a chofnodi mathau gwahanol o adeiladau. Cerddodd y babanod lawr i Bryndulais gan sylwi ar yr adeiladau hefyd. Roedd y gwaith yn rhan o'n gwaith daearyddiaeth.

Dyma enillwyr ein Clwb Cefnogwyr am fis Mawrth –

1. £10.00 – 46 – April Davis, Bryn Heddwch, Llanllwni.
2. £5.00 – 195 – Hilary Pendle, 10 Bro Nantlais, Gwyddgrug.
3. £2.50 – 152 – Sioned Howells, Pantglas, New Inn.
4. £2.50 – 133 – Doris Jones, Glyn Telor, Gwyddgrug.
5. £2.50 – 163 – Eirwyn Jones, Felin Gelli, New Inn.

### Cyfarfod Cyhoeddus

Y mae'r Cyngor Bro wedi trefnu cyfarfod cyhoeddus gyda Aelodau Seneddol Rhodri Glyn Thomas ac Adam Price yn y Neuadd Gymunedol ar nos Wener, Mai 1af. Y mae croeso i unrhyw un o'r plwyf ddod i'r cyfarfod i drafod unrhyw fater. Bydd yn fantais i'r Clerc, Eirlys Davies gael gwybod ymlaen llaw am unrhyw bwnc arbennig. Ffoniwch 01570 481041.



## Eisteddfod Cylch Llambod

Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambod yn yr ysgol Gyfun a bu gystadlu brwd a hwylus o safon uchel gyda'r neuadd yn orlawn drwy gydol yr Wyl. Y beirniaid eleni oedd Bethan Bryn a Geraint Thomas (cerdd), Geraint Hughes (llefaru), Charlotte Griffiths (dawnsio disgo) a Liz Roberts (dawnsio gwerin) a'r cyfeilyddion oedd Elonwy Davies a Margaret Jones. Llywyddion yr Eisteddfod oedd Dan ac Aerwen Griffiths ac fe'u croesawyd yn gynnes gan Ann Davies, Prifathrawes Ysgol y Dderi. Mwynhawyd anerchiad diddorol iawn gan Aerwen yn sôn am ei hatgofion fel aelod o'r Urdd. Diolchwyd yn ddiffuant i'r llywyddion am gyflwyno rhodd anrhydeddus iawn tuag at yr achos. Hefyd yn ystod y prynhawn cyflwynwyd basgedaid o flodau i Nancy Jones o Llambod fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth amhrisiadwy fel cyfeilydd ar hyd y blynyddoedd. Ar ddiwedd y dydd talwyd teyrnged uchel gan Elin Jones is gadeirydd y pwyllgor cylch i Sheila Davies ysgrifennydd yr Eisteddfod a phawb yn gysylltiedig ag ysgol y Dderi am eu gwaith diflino, i'r beirniaid a'r cyfeilyddion am eu gwasanaeth arbennig ac i gapel Brondeifi am gael cynnal ein rhagbrofion yno. Diolchodd hefyd i'r cystadleuwyr a'r hyfforddwy, i fechgyn yr ysgol am eu cyfraniad gwerthfawr gyda'r sain a'r goleuadau, i arweinyddion y llwyfan a'r rhagbrofion ac yn olaf ond nid lleiaf i Mr Dylan Wyn y Prifathro a'r staff am eu cydweithrediad parod yn ôl yr arfer. Tystiau pawb ein bod wedi cael diwrnod llwyddiannus iawn. Dyma'r canlyniadau: Unawd Bl 2 ac iau, 1. Elin Davies, Ysgol Cwrtnewydd, Unawd Bl 3 a 4, 1. Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr. Unawd Bl 5 a 6, 1. Meirion Sion Thomas, Adran Llambod. Cerdd Dant Bl 2 ac iau, 1. Elin Davies. Cerdd Dant Bl 3 a 4, 1. Marek Owen, Ysgol Carreg Hirfaen. Cerdd Dant Bl 5 a 6, 1. Meirion Sion Thomas. Llefaru Bl 2 ac iau, 1. Elin Davies. Llefaru Bl 3 a 4, 1. Twm Ebbsworth, Ysgol Llanwnnen. Llefaru Bl 5 a 6, 1. Betsan Jones, Ysgol Llanllwni. Alaw Werin Bl 6 ac iau, 1. Meirion Sion Thomas. Unawd Llinynnol Bl 6 ac iau, 1. Mererid Jones, Ysgol y Dderi. Unawd Piano Bl 6 ac iau, 1. Meinir Davies, Ysgol Cwrtnewydd. Unawd chwythbrennau, 1. Sian Baddeley, Ysgol Carreg Hirfaen. Llefaru i ddysgwyr Bl 2 ac iau, 1. Heledd Jones, Ysgol Y Dderi. Llefaru i ddysgwyr Bl 3 a 4, 1. Mererid Jones. Llefaru i ddysgwyr Bl 5 a 6, 1. Julianna Barker, Ysgol Carreg Hirfaen. Dawnsio Disgo Unigol Bl 6 ac iau, 1. Elin Hughes, Ysgol Llanybydder. Grwp Dawnsio Disgo, 1. Ysgol Ffynnonbedr. Dawns cyfrwng cymysg, 1. Ysgol Ffynnonbedr. Dawns Werin Bl 4 ac iau, 1. Ysgol Y Dderi. Dawns Werin Bl 6 ac iau, 1. Ysgol Y Dderi. Parti Cerdd Dant, 1. Ysgol Carreg Hirfaen. Parti Unsain (ysgolion hyd at 50 o blant), 1. Ysgol Cwrtnewydd. Parti Unsain (dros 50 o blant), 1. Ffynnonbedr. Parti Unsain i Adrannau, 1. Llambod. Côr (ysgolion hyd at 150 o blant), 1. Carreg Hirfaen. Côr (ysgolion dros 150 o blant), 1. Ffynnonbedr. Ymgom Bl 6 ac iau, 1. Cwrtnewydd. Grwp Llefaru i Ysgolion, 1. Cwrtnewydd. Grwp Llefaru i Adrannau, 1. Llambod.

## Canlyniadau Rhanbarth Ceredigion 2009

**Celf a Chrefft** - Gwaith Creadigol 3D Cywaith Bl.2 ac iau = 2il Catrin, Hannah, Lleucu, Nia, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, 3ydd Zachary, Lois, Caitlin, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, Argraffu Bl. 5 a 6 = 3ydd Siân Baddeley, Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen, Pyped Bl. 5 a 6 = 3ydd Luned Medi Jones, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, Pypedau Cywaith Bl. 3 a 4 = 3ydd Briallt, Aaron, Cerys, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, Print Du a Gwyn Bl. 5 a 6 = 3ydd Meinir Davies, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd, Print Lliw Bl. 5 a 6 = 1af a 3ydd Cerian Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen, Printiau Du a Gwyn Bl. 5 a 6 = 2il Cerian Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen, Gemwaith Bl. 2 ac iau = 3ydd Heledd Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen, Gemwaith Bl. 3 a 4 = 3ydd Ellen Jones, Ysgol Gynradd Llanwnnen, Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8 = 1af Dewi Uridge, Ysgol Gyfun Llambod, Gwaith Lluniadu 2D Bl. 9 = 3ydd Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llambod, Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 9 = 2il = Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llambod

**Dawns Cynradd** - Dawns Disgo Unigol Bl. 6 ac iau 3ydd - Elin Hughes, Ysgol Gynradd Llanybydder, Dawns Werin Bl. 4 ac iau 2il - Ysgol Y Dderi, Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 6 ac iau 2il - Ysgol Gynradd Ffynnonbedr, Dawns Werin Bl. 6 ac iau 1af - Ysgol Y Dderi, Grŵp Dawnsio Bl. 6 ac iau 2il - Ysgol Gynradd Ffynnonbedr.

**Dawns Uwchradd** - Dawns Disgo Unigol Bl. 7 - 9 3ydd Polly Lagdon, Ysgol Gyfun Llambod, Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 7 - 13 1af Ysgol Gyfun Llambod, Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 10 - 13 3ydd Ysgol Gyfun Llambod.

**Aelwydydd** - Llefaru Unigol 19 - 25 oed 2il Enfys Hatcher, Aelwyd Pantycelyn.

**Uwchradd - Unawd Llinynnol Bl. 7 - 9** 2il Llion Thomas, Aelwyd Llambod, **Unawd Piano Bl. 7 - 9** - 3ydd Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod, **Unawd Telyn Bl. 7 - 9** 2il Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambod, **Unawd Merched Bl. 7 - 9** 2il - Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambod, **Llefaru Bl. 7 - 9** 1af Lowri Elen Jones, Aelwyd Llambod, **Llefaru Bl. 10 - 13** 1af Hedydd Davies, Aelwyd Llambod, **Unawd Merched Bl. 10 - 13** 2il Elli Dafydd, Aelwyd Llambod, **Unawd Bechgyn Bl. 7 - 9** Aron Dafydd, Aelwyd Llambod, **Cyflwyno Alaw Werin Bl. 7 - 9** 2il Lowri Elen, Aelwyd Llambod, **Unawd Cerdd Dant Bl. 10 - 13** 1af Elli Dafydd, Aelwyd Llambod, **Monolog Bl. 10 - 13** 2il Elli Dafydd, Aelwyd Llambod, **Grŵp Llefaru Bl. 9 ac iau [Adran]** 1af Aelwyd Llambod, **Parti Bechgyn Bl. 7 - 9** 1af Ysgol

Gyfun Llambod, **Parti Llefaru Bl. 7 - 9** 2il Ysgol Gyfun Llambod, **Parti Deusain [Adran] Bl. 9 ac iau** 1af Aelwyd Llambod, **Parti Merched Bl. 7 - 9** 3ydd Ysgol Gyfun Llambod, **Ymgom Bl. 7 - 9** 3ydd Ysgol Gyfun Llambod, **Côr S.A. Bl. 7 - 9** 1af - Ysgol Gyfun Llambod, **Ensemble Lleisio Bl. 13 ac iau** 1af Ysgol Gyfun Llambod, **Côr Bechgyn T.B. Bl. 13 ac iau** 3ydd - Ysgol Gyfun Llambod.

**Cynradd - Unawd Chwythbrennau Bl. 6 ac iau** - 2il Sian Baddeley, Ysgol Carreg Hirfaen, **Unawd Llinynnol B. 6 ac iau** - 3ydd Mererid Jones, Ysgol Y Dderi, **Unawd Bl. 5 a 6** - 1af Meirion Siôn, Adran Llambod, **Unawd Bl. 2 ac iau** - 2il Elin Davies, Ysgol Cwrtnewydd a **Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau** - 2il a **Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau** 1af, **Unawd Bl. 3 a 4** 2il Charlotte Saunders, Ysgol Ffynnonbedr, **Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau [D]** 2il Heledd Jones, Y Dderi, **Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 [D]** - 3ydd Julianna Barker, Carreg Hirfaen, **Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4** - 2il Marek Owen, Ysgol Carreg Hirfaen, **Ymgom Bl. 6 ac iau** - 1af Ysgol Cwrtnewydd, **Parti Bl. 6 a iau** - Adran Llambod, **Parti Unsain Bl. 6 ac iau** - Ysgol Cwrtnewydd, **Grŵp Llefaru Bl. 6 ac iau** - 1af Adran Llambod, **Côr Bl. 6 ac iau** - 2il Ysgol Carreg Hirfaen, **Côr Bl. 6 ac iau** - 3ydd Ysgol Ffynnonbedr 3ydd.

## TAITH GERDDED GŴYL CYHOEDDI EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CEREDIGION 2010

Fel yr ydych yn gwybod, mae'n siwr, mae Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yn ymweld â Cheredigion yn 2010. Mae tipyn o frwdfrydedd ar draws y sir ac mae'r pwyllgorau testun wedi bod yn brysur yn paratoi yr holl gystadlaethau a'r pwyllgorau apêl hwythau wedi bod yn ddiwyd yn trefnu gweithgareddau a chasglu arian ar gyfer y brifwyl.

Fel sydd yn draddodiadol cynhelir yr Ŵyl Gyhoeddi ar gyfer yr Eisteddfod flwyddyn ymlaen llaw a'r bwriad eleni yw ei chynnal ddiwedd Ebrill yn ystod yr wythnos Ebrill 20-24. Er mwyn codi ymwybyddiaeth am yr Eisteddfod ac i hyrwyddo Ceredigion yn gyffredinol caiff taith gerdded ei chynnal o gwmpas y sir fydd yn mynd ar hyd rhai o'r llwybrau penodol sydd wedi eu datblygu dros y blynyddoedd diwethaf.

Caiff un daith ei threfnu drwy ogledd y sir ac un arall drwy dde'r sir gyda'r nôd o'r ddwy yn cwrdd ar ddydd Gwener, 24 Ebrill yng nghanolfan yr Urdd Llangrannog lle cynhelir jambori ar gyfer plant ysgolion cynradd y sir.

Caiff y teithiau dyddiol eu harwain gan gerddwyr profiadol ac mae cyfle i chi ymuno â nhw am ddiwrnod cyfan neu am ran o'r daith.

Os oes diddordeb ac i dderbyn rhagor o fanylion cysylltwch ag un o'r canlynol:

### TEITHIAU'R DE

#### Dydd Mawrth Ebrill 21ain 2009

Dafydd Wyn Morgan - 07748 675798

#### Dydd Mercher Ebrill 22ain 2009

Ieuan Roberts - 01570-422783

#### Dydd Iau Ebrill 23ain 2009

Dewi Hughes - 01970-828026

#### Dydd Gwener Ebrill 24ain 2009

1: Aberteifi - Aberporth

Dewi Hughes - 01970-828026

John M.O.Jones - 01239-654309

Ian ap Dewi - 01239-654594

Pontrhydfendigaid - Llambod

400@twmsioncati.co.uk

Llambod - Llandysul

madryn783@aol.com

Llandysul - Aberteifi

dewighughes@lineone.net

Aberteifi - Llangrannog

2: Aberporth - Llangrannog

dewighughes@lineone.net

ianap@ceredigion.gov.uk

### TEITHIAU'R GOGLEDD

#### Dydd Mawrth Ebrill 21ain 2009

Rees Thomas. 01970-828772

#### Dydd Mercher Ebrill 22ain 2009

1: Aberystwyth - Ynyslas

2: Taliesin, Tal-y-bont, Penrhyn-coch, Rhydypennau

Bethan Hartnup - 01970-828533

Rees Thomas - 01970-828772

#### Dydd Iau Ebrill 23ain 2009

Marina James - 01545-571045

#### Dydd Gwener Ebrill 24ain 2009

1: Aberaeron - Cwmtydu

Mair Rees - 01545-580600

Eileen Curry 01559-362253

Pontrhydfendigaid - Aberystwyth

hreesthomas@yahoo.co.uk

Ardal Aberystwyth

rhartnup@hotmail.com

hreesthomas@yahoo.co.uk

Aberystwyth - Aberaeron

marinajames.7@btinternet.com

Aberaeron - Llangrannog

2: Cwmtydu - Llangrannog

Rees.mair@virgin.net

Dewch i fod yn rhan o'r bwrllwm.

Diolch o flaen llaw am eich cefnogaeth

Yn gywir,

Deian Creunant

Cadeirydd Pwyllgor Gwaith

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD CEREDIGION 2010

# Yn y Gegin gyda Gareth



## Pwdinau perffaith i'r Pasg

Gwledd o bwdinau sydd gennyf i gynnig i chi'r mis yma. Casgliad a fydd yn ffeffrynau dros wyliau'r Pasg pryd y daw'r teulu adre.

Maent yn defnyddio wyau mewn amryw ffurf sydd yn symbol bwysig iawn yn nathliadau'r Pasg. Os ydych wedi derbyn gormod o wyau siocled beth am ddefnyddio peth yn y 'Pwddin Bara Siocled'.

Mwynhewch baratoi a blasu'r pwdinau, - o ie, a'r wyau Pasg hefyd!!

Pasg hapus,

Gareth.

## Pwddin Bara Siocled.

Cynhwysion

- 6 tafell o fara gwyn
- 4 owns o siocled
- ½ pint o laeth
- 2 llond llwy fwrdd o goffi cryf
- 2½ owns o siwgrw caster
- 2 ŵy

Dull

1. Irwch bedair disgyl ramekin â menyn. Torrwch y tafelli bara i bedwar triongl. Rhowch y laeth, coffi, siocled a'r siwgrw mewn sosban am rhyw ddeg munud nes bod y siocled wedi toddi.
2. Curwch yr ŵyau ac ychwanegwch y gymysgedd siocled. Cymysgwch yn drwyadl.
3. Rhowch ychydig o'r gymysgedd dros waelod y disglau, yna hanner y bara, ychydig o'r gymysgedd, bara yna gweddill y gymysgedd.
4. Gorchuddiwch â chlingfilm a gadewch i sefyll am tua 2 awr.
5. Tynnwch y clingfilm i ffwrdd a rhowch mewn ffwrn 180°C am tua 20 munud nes bod y siocled wedi caledi a'r bara'n grimp.



## Pwddin y Pasg

Cynhwysion

- 3 owns o gacen madeira.
- ½ pint o laeth
- 1 owns o fenyn
- 2 ŵy wedi'u gwahanu
- 4 llond llwy o geulad lemwn, (lemon curd).
- 1 owns o siwgrw caster.

Dull.

1. Malwch y gacen yn friwsion mân yn y prosesydd bwyd. Rhowch mewn dysgyl fawr. Dewch a'r menyn a'r laeth bron i'r berw. Ychwanegwch y gacen gan gadw i droi. Gadewch i aros am ddeg munud. Twymwch y ffwrn i wres 180°C. Curwch y melynwy yn ysgafn ac ychwanegwch i'r gymysgedd.
2. Rhannwch y gymysgedd i 6 dysgyl ramekin wedi'u iro. Rhowch ar dun pobi a choginiwch am 10 munud. Rhannwch y geulad lemwn rhwng y chwe dysgyl. Curwch y gwynwy ac ychwanegwch y siwgrw. Rhowch y 'mirang' dros y chwe dysgyl a rhowch y cyfan yn ôl yn y ffwrn am 15 munud nes yn euraid. Gweinwch yn boeth.



## Pwddin mirang a mango

Cynhwysion

- Un mango mawr aeddfed
- 4½ owns o gaws meddal
- 1 owns o siwgrw 'icing'
- 4 'mirang nests'
- 200 ml carton o 'creme fraîche'

Dull

1. Gwaredwch y croen a'r garreg o'r mango. Torrwch 8 sleisen o'r mango a rhowch o'r neilltu. Rhowch y gweddill yn y prosesydd bwyd nes yn llyfn.
2. Curwch y caws a'r siwgrw gyda'r mango yn y prosesydd.
3. Malwch y mirang a gosodwch yn haenau mewn gwydrau gyda'r mango a'r 'creme fraiche'. Addurnwch gyda'r mango a neilltuwyd. Oerwch cyn gweini.



# MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

## Cael llais ynghanol y crynsh

Enw da ydi'r credit crunch. I ddechrau, roedd yna lawr gormod o gredyd, ac wedyn y daeth y crynsh. Y newyddion drwg ydi fod y crynsh heb gyrraedd ei waetha' eto, yn enwedig yng nghefn gwlad.

Fe ddaw'r glo mân i ni pan fydd rhaid talu'n ôl am yr holl arian sydd wedi ei bwmpio i mewn i'r banciau. Efallai y bydd y rheiny'n well ymhen blwyddyn neu ddwy, ond fe fydd rhaid talu bil y doctor.

Pwy bynnag fydd yn tu ôl i'r cyrtens yn Rhif 10 Downing Street erbyn hynny, fe fydd rhaid torri'n ôl ar wario cyhoeddus ... ar yr arian sy'n dod i gynghorau lleol ac i gynnal pob math o wasanaethau.

Y peryg mawr ydi y bydd y wasgfa ariannol yn gorfodi pobol i wneud penderfyniadau mawr iawn a'r rheiny'n newid pethau am byth ... heb i neb ohonon ni sylweddoli'n iawn beth sy'n digwydd.

Mae'r peth i'w weld yn digwydd eisoes ym myd addysg. Arian yn y pen draw sy'n gorfodi cynghorau i wneud rhywbeth ynghylch llefydd gwag mewn ysgolion bach ac yn gwrthio ysgolion uwchradd a cholegau at ei gilydd i gynnig addysg chweched dosbarth.

Fe allai'r penderfyniadau effeithio ar bopeth, o fyd busnes i batrwm teithio, o bolisi tai i gynnig gwasanaethau ond fydd hynny ddim wedi'i ystyried wrth edrych i lygad y geiniog.

Mae yna ymgynghori'n digwydd cyn cau unrhyw ysgol, wrth gwrs, ond ymgynghori ynghylch yr effeithiau, nid ynglŷn â'r egwyddor. A'r penderfyniadau yma, sy'n cael eu cymryd ynghanol argyfwng, fydd yn siapi natur ein cymdeithas ni.

Chawson ni fawr o lais chwaith yn y penderfyniad i fynd i ryfel yn Irac ac Affganistan, neu i wahodd y Gêmau Olympaidd i Lundain. Meddylwch pa mor handi heddiw fyddai'r biliynau ar filiynau sy'n cael eu gwario yn fan'ny.

Teimlad hollol wahanol oedd yn Theatr Felin-fach ganol y mis diwetha' pan ddaeth degau o bobol o bob cornel o Geredigion at ei gilydd i feddwl am y dyfodol.

Pwerdai oedd y testun y bore Sadwrn hwnnw – ffordd o weithio i roi bywyd newydd yn y diwylliant Cymraeg yn ein hardaloedd ni a'i gyflwyno i bobol ddwad ... ar ein telerau ni.

Erstalwm, Euros Lewis oedd y maestro adeg y panto yn yr un theatr; bellach, gyda help staff Felin-fach a'r Fenter Iaith Cered a chefnogaeth y Cyngor Sir, mae wedi bod yn sgriptio syniadau o fath gwahanol.

Uchafbwynt y bore oedd cyflwyno llyfryn yn dangos, o gam i gam, sut y mae pwerdai'n gweithredu. Dechrau trwy holi cwestiynau a symud at yr atebion ... trafod, wedyn gweithredu.

Dim ond dau neu dri o ffrindiau neu gydnabod sydd eisie ar y dechrau ... i holi ble'r 'yn ni arni a beth sydd angen ei wneud. Does dim rhaid cael rhyw ddigwyddiad neu raglen anferth ... dechrau symud ydi'r peth mawr.

Yr gair canolog, wrth gwrs, ydi'r gair "Cymraeg". Y nod ydi rhoi hwb i fywyd naturiol Gymraeg yr ardaloedd yma ... nid newid yr hyn yr ydyn ni'n ei wneud i blesio pobol o'r tu fas, ond eu gwahodd nhw i werthfawrogi'r hyn sydd gynnwys ni.

Fel arfer, y bore hwnnw, roedd yna sgets neu ddau gan Rhodri a Meleri o griw y Garn Fach. Un am Seithennyn a Chantre'r Gwaelod a'r llall yn dangos y Cymro bach swil yn ceisio bracsan Saesneg ac yn cilio i gefn y theatr cyn diflannu'n llwyr.

Mewn rhannau eraill o'r sir, mae'r math o weithio sydd yn ysbrydoli'r pwerdai wedi tynnu grŵp o gapeli at ei gilydd ac wedi arwain at greu ysgol ardal – yn y ddau achos, mae'r newid wedi digwydd ar delerau'r bobol eu hunain.

Yn ein hardal ninnau, o Ffair Gwenog i'r gobaith am fywyd newydd yn ffatrioedd Felin-fach, mae'r syniad yn gallu gweithio ... ac mae yna neges glir wrth wynebu'r holl broblemau eraill.



Disgyblion Ysgol Carreg Hifaen yn dilyn eu llwyddiant yng nghystadlaethau Traws Gwlad y cylch yn ddiweddar.

## TRYSOR

Rydym yn prynu **AUR**

rien adarnau, darnau wedi treulio neu dim eu hangen mwyach.

Hefyd sofrennau.

Manteisiwch ar bris uchel y farchnad aur!!

Galwch am fanylion yn:

3 Stryd y Coleg,  
Llambed  
01570 423707

56 Stryd y Brenin,  
Caerfyrddin.  
01267 222500







Dol-Mebyd  
Pencarreg



Annwyl Blant,

Sut ydych chi gyd? Byddwch chi'n siwr o fod yn falch clywed fy mod i Lincyn a Joni Jacos wedi bod yn fisi iawn yn ddiweddar yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Canu deuawd oedd hi eleni, ond yn anffodus doedd y beirniad ddim yn deall ei waith ac fe gawsom ni gam unwaith eto. Rwyf i'n credu mai bai Joni oedd y cwblwl, (fuodd e erioed yn un am ddala nodyn!)

Braf gweld bod llawer un wedi rhoi cynnig arni y mis hwn eto. Roedd gwaith crafu pen y mis hwn. Mae clod mawr yn mynd i Cara Medi o Lamed, Alaw Mererid o Flaencwrt, holl ddisgyblion Ysgol Llanwnnen, Ben Lewis o Ddrefach, Rhodri Jac o

Lanybydder, Laura Gaskell o Ffosyffin, Miriam Butcher o Gaerdydd a Lauren McLeary o Lwynygroes.

Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Hanna Davies, Gerynant, Drefach, Llanybydder. Da iawn a llongyfarchiadau mawr ichi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis nesaf a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Llun, Ebrill 27ain.




Enw:

Cyfeiriad:

Enillydd  
y mis!

Hanna  
Davies

## Dysgu Cymraeg?



Ffoniwch am gopi o'r cylchgrawn i ddysgwyr Cyn-fynediad, Mynediad a Sylfaen.

02920 300800

## 'STORI I'N SWYNO'

I blant  
dan 12 oed



Cystadlu arbennig y mis hwn a minnau wir wedi cael fy swyno gan bob stori. Mor braf gweld cymiant o syniadau gwahanol ar y testun. Y stori sydd wedi fy swyno fwyaf y tro hwn yw stori **Sioned Martha Davies**, Gwyddgrug. Mwynhewch ei darllen ar dudalen 12.

Cofiwch nawr blant i fwrw ati y mis hwn eto i ysgrifennu stori. Teitl ar gyfer y mis yma yw:

**'Chysgais i ddim winc!!'**

Cofiwch anfon eich stori at:

'Y Dewin Doeth',  
Glasfan, Drefach,  
Llanybydder, Ceredigion.  
SA40 9SY neu golygydd@clonc.co.uk  
erbyn Dydd Gwener, Ebrill 24ain.

Cyfle i ennill  
Tocyn Llyfr gwerth  
**£10**



# Cyflwyno sieciau i achosion teilwng



Pwyllgor Neuadd Bentref Llanfair Clydogau yn cyflwyno sic o £1,838.10 i Cyng. Odwyn Davies ar ran Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.



Cyflwynodd Cyngor Tref Llambled £500 yn ddiweddar i Bwyllgor Apêl Llambled tuag at ymgyrch lleol i godi arian i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010. Gwelir yn y llun Maer y dref y Cyngorydd Derek Wilson yn cyflwyno sic ar ran Cyngor Tref Llambled i Rhys Bebb Jones, Trysorydd Pwyllgor Apêl Llambled.



Dyma lun o Bob Jones, Derwen fawr, Ffordd Llanwnnen, Llambled a ddathlodd ei ben-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Ganwyd y pedwar oen yma i un o'i ddefaid diwrnod ar ôl ei ben-blwydd. Anrheg bach neis! Dymuna ddiolch i bawb am y cyfarchion pen-blwydd â dderbyniodd.



Mewn noson caws a gwin a gynhaliwyd yn y Llew Du Llanybydder cyflwynodd Mair Evans cadeirydd cangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes UK Cymru sic o £6000 i Ellen Blanks(chwith) o swyddfa Cymru Caerdydd, arian a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Helen Draycott sic o £750 ar ran Banc Barclays o dan gynllun punt am bunt y banc tuag at y noson. Hefyd yn y llun mae Elin Jones A.C. Llywydd y noson. Elonwy Davies cyfeilyddes, Dylan Williams a fu'n canu, Bet Davies Ysgrifenyddes, Betty Jones Trysoryddes.



Mrs Magw Hughes Pantydderwen llywydd Noson Cawl a Chan yn trosglwyddo £235, sef hanner yr elw i Mrs Enfys Llwyd athrawes Ysgol Llanwnnen a phlant dosbarth y babanod.

**Cawl a Chan** - Ar nos Wener, Mawrth 6ed cynhaliwyd ein noson flynyddol o Gawl a Chan yng Ngwesty'r Grannell gyda phlant yr Ysgol leol yn ôl eu harfer yn adrodd a chanu darnau Cymraeg pwrpasol i ddathlu Gŵyl Dewi. Arweinydd y noson oedd y Pennaeth Sion Mason-Evans gyda chymorth Cadeirydd y Cyngor Cymuned Cyng Richard Jarman, Araul. Y wraig gwâdd eleni oedd Mrs Magw Hughes, Pantydderwen gynt o fferm Cwmhendryd. Diolchwyd iddi am eu rhodd hael i'r achos gan y Cyng Richard Jarman ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y noson. Yn yr ail ran cafwyd adloniant gan y Parti Ffrindiau o ardal Llanio a Llangeitho a chafwyd canu o safon uchel iawn. Noson bendigedig - yr oedd y cawl blasus wedi ei baratoi gan Westy'r Grannell. Rhannwyd yr elw o £470 rhwng Pwyllgor Llës Llanwnnen a Phwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanwnnen. Rhoddwyd gwobrau y Raffl gan aelodau'r Cyngor Cymuned.

## Adroddiad am y noson

Nos Sadwrn 14eg o Fawrth cynhaliodd cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru noson Caws a Gwin i ddathlu penblwydd y gangen yn 25 oed. Gwraig wâdd y noson oedd Elin Jones aelod y cynulliad dros Geredigion. Cafwyd ychydig eiriau pwrpasol iawn ganddi a diolch iddi am ei rhodd haelionus tuag at y noson. Cyflwynodd Helen Blanks o swyddfa Diabetes UK Cymru Caerdydd tystysgrif i longyfarch y gangen ar yr achlysur arbennig yn ei hanes. Hefyd diolchodd yr aelodau am y gwaith caled ac am yr arian mae'r gangen wedi ei gyflwyno i'r swyddfa yn Llundain a Chaerdydd dros y blynyddoedd. Yna cyflwynodd Mair Evans cadeirydd y gangen sic o £6000 iddi tuag at projectau ymchwil sydd yn mynd ymlaen yng Nghymru. Dros y blynyddoedd mae'r gangen wedi codi bron £100,000.

Yn ystod y noson cyflwynodd Helen Draycott o Fanc Barclays sic o £750 dan gynllun punt am bunt y banc. Diolch iddi am ei chymorth gyda gwerthu'r raffl. Diolch hefyd i Dylan Williams o Borthyrhyd am ein diddori drwy ganu caneuon gwerin ac i Elonwy Davies am ei gynorthwyo ar y piano. Codwyd dros £2000 yn ystod y noson a fydd maes o law o gymorth i'r rhai sy'n diodde o glefyd y siwgrwng yng Nghymru. Diolch hefyd i nifer fawr o unigolion a llu o fudiadau am ei cefnogaeth parod dros y blynyddoedd. Enillwyr y raffl oedd – £30 Doris Lloyd Llanybydder, £20 Rhys Evans Llanwenog, £10 Ann Beaumont Llanybydder, £10 Mrs Wilson Cwmann, £10 Ffrind £5, Williams Rhydybont, £5 Lynwen Jones Cribyn.



## Steil.....



Aelodau Merched y Wawr Llambod sef Nel, Margaret, Gwynfil, a Janet ynghyd â Iona Trevor Jones yn modelu dillad hwyrnos a wisgwyd gan Iona ar achlysuron nodedig yn ei bywyd ar hyd a lled y byd yn cynnwys yr Amerig, Paris a'r QE2. Bydd cyfle i weld y casgliad ym Mangor.

## Noson Coffi.....



Mark Griffiths Caerfyrddin a fu yn agor yr arwerthiant flynyddol Capel Aberduar nos Fercher 18fed o Fawrth ynghyd â Tomos ei fab. Hefyd o'r chwith Hannilia Court ysgrifenyddes, Ogwen Evans Trysoryddes, Margaret Griffiths (mam Marc) a'r Parch Jill Tomos Gweinidog.

## Cyflwyno Gwisgoedd Newydd.....



Aelodau o Dîm Rhedeg Trawsgwlad Ysgol Ffynnonbedr a enillodd i fynd ymlaen i gynrychioli'r ysgol yng nghystadlaethau Sir yr Urdd yn Llangrannog cyn bo hir. Hefyd yn y llun gwelir Alec Page yn cyflwyno set o grysau rhedeg iddynt a derbyniwyd hwy gan Caitlin Page a Iestyn Evans, dau a enillodd y cyntaf yn eu hadran.



Clwb Hoci Llanybydder yn derbyn crysau a siwperi hoci oddi wrth eu noddwyr Mark Saunders o gwmni LAS Recycling, Llambod a Bev Wilkins o Dafarn y Fishers, Cellan.